



Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin (CDS) (2026-2051)

Cytundeb Cyflawni

Mawrth 2026




Ffigur 1: Map o Ranbarth De-orllewin Cymru

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for
South West Wales



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



© Hawflreint y Goron 2025 OS 100023392. Rhoddni llywyddol ddiymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data llywyddolgydd atddorion onfanachol am y cyfnod y mae or gael gan Gyngor Bwrdd Sir Castell-nedd Port Talbot Nichowch gael, is ddywyddu, dosbarthu na gwerthu unihw ron o'r data hem i drydydd parhonnwenn unihw R, I. © Crown copyright 2025 OS 100023392. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form.



Cynnwys

	Tud
1. Crynodeb Gweithredol	5
2. Y Cyd-destun Polisi	7
Ein Huchelgais – Rhanbarth Cystadleuol, Cysylltiedig, Cydnerth	7
Cyfle Cyd-destun Polisi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC)	10
3. Rôl y Cytundeb Cyflawni (CC) a Chynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)	12
4. Paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS)	14
Cyfnodau allweddol proses y CDS	14
Llywodraethiant	14
Deilliannau Allweddol y CDS	15
Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau sy'n berthnasol wrth baratoi'r CDS	16
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)	17
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD)	19
Y Sylfaen o Dystiolaeth	19
Archwiliad Annibynnol a'r Profion Cadernid	21
Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)	23
Monitro, Adolygu a Diwygio	23
Gweithio ar y Cyd	24
5. Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)	25
Egwyddorion Allweddol wrth Gynnwys	25
Y Gymraeg ac Ymgysylltu Dwyieithog	26
Â phwy bydd y CBC yn ymgynghori?	27
Sut bydd y CBC yn eich cynnwys chi?	33
Adeiladu Consensws	35



	Rheoli Cynrychiolaethau	36
	Cynrychiolaethau Hwyr	36
	Argaeledd Dogfennau	37
6.	Amserlen	38
	Asesiad Risg	39
7.	Cyllideb y Rhaglen a'r Strategaeth o ran Darparu Adnoddau	40
	Atodiadau	
	Atodiad 2: Asesiadau o'r Sylfaen o Dystiolaeth	43
	Atodiad 3: Crynodeb o ymwneud y gymuned â chyfnodau allweddol y CDS	49
	Atodiad 4: Rhestr o'r Cyrff Ymgynghori Cyffredinol	62
	Atodiad 5: Prif Swyddfeydd Llywodraeth Leol	89
	Atodiad 6: Amserlen Fanwl y CDS	90
	Atodiad 7: Asesiad Rheoli Risg	91

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae [Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru](#) – CCERh-(dyddiedig Medi 2021) yn nodi ym mharagraff 1.2 bod “Ein treftadaeth ddiwydiannol, yn economaidd, yn cyplysu â pheth o botensial ynni morol pwysicaf y Deyrnas Unedig, gan sbarduno cyfleoedd pwysig i ddatgarboneiddio a thyfu Economi Werdd y Deyrnas Unedig. Yn amgylcheddol, mae’r arfordir a chefn gwlad – gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog ac Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr – yn cyfrannu at ansawdd bywyd ac arlwy i ymwelwyr sy’n ardderchog. Yn ddiwylliannol, mae’r rhanbarth yn cwmpasu dinas brifysgol ddeinamig Abertawe, sydd ar ei thyfiant, rhwydwaith amrywiol, llawn cymeriad o drefi gwledig, a’r iaith Gymraeg, sy’n dod yn gynyddol hyfyw”.
- 1.2 Mae penderfyniad cryf yn Rhanbarth De-orllewin Cymru (RhDoC) i alinio a gwneud defnydd o bwerau statudol newydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau). Mae hwn yn gyfle unigryw i ddatblygu polisiau ac ymyriadau trawsffurfiannol trwy integreiddio llesiant economaidd, cynllunio gofodol, a chynllunio trafndiaeth. Nod RhDoC yw cyflawni hynny trwy baratoi’r cynlluniau allweddol a restrir isod a’u hintegreiddio â pholisiau corfforaethol allweddol sy’n ceisio hybu cynhyrchiant, cynhwysedd a chynaliadwyedd yn ein rhanbarth:
- Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol
 - Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS).
 - Cynlluniau Trafndiaeth Rhanbarthol (CTRh).
- 1.3 O ran cynllunio gofodol, bydd y CDS yn cyflawni rôl allweddol o safbwynt dylanwadu ar dwf y rhanbarth i’r dyfodol, trwy gyflwyno polisiau defnydd tir a chynlluniau strategol yn ystod y cyfnod 2026-2051.
- 1.4 Trwy gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach, bydd y CDS yn sicrhau aliniad a chydweithrediad ar draws ffiniau gweinyddol llywodraeth leol yn RhDoC, gan adlewyrchu sut mae pobl yn byw, sut mae marchnadoedd yn gweithredu, a sut mae’r system drafndiaeth a busnesau’r rhanbarth i gyd yn gweithredu ac yn cyd-blethu. Mae hyn yn cynrychioli dull gweithredu mwy cydlynus nag yn y gorffennol; gyda chyfatebiaeth glos ag uchelgeisiau datblygu economaidd a’n gweledigaeth o ran dull mwy strategol o ymdrin â defnydd tir a chynllunio trafndiaeth.

- 1.5 Bydd y CDS yn gweithredu fel dolen gyswllt hanfodol rhwng y Cynllun Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLliao). Bydd yn sefydlu fframwaith strategol i lywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC) yn y dyfodol, gan sicrhau cydlyniant ac aliniad ag amcanion rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.
- 1.6 Er bod y CDS yn statudol ofynnol, bydd yn cael ei deilwra i ymateb i brif faterion a sbardunau'r rhanbarth. Yn ystod oes 15 mlynedd Bargen Ddinesig Bae Abertawe, bydd y portffolio buddsoddiadau yn rhoi hwb o £1.8 biliwn, o leiaf, i'r economi ranbarthol, ac yn cynhyrchu mwy na 9,000 o swyddi. Mae rhaglenni a phrosiectau'r Fargen Ddinesig wedi'u seilio ar themâu allweddol sy'n cynnwys cyflymu economaidd, gwyddor bywyd a llesiant, ynni, gweithgynhyrchu clyfar a digidol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.7 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cam cyntaf yn natblygiad y CDS ac yn cyflwyno sut a phryd gall rhanddeiliaid a'r gymuned fod yn rhan o'r broses o greu'r cynllun. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer ei baratoi, gydag amserlenni a cherrig milltir clir ar gyfer cyfnodau allweddol o'r broses. Bwriad y dull gweithredu hwn yw meithrin ymgysylltiad a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

2. Y Cyd-destun Polisi

Ein Huchelgais – rhanbarth sy'n llawn menter ac uchelgais, sy'n gytbwys ac yn gynhwysol, ac sy'n gydnerth ac yn gynaliadwy

- 2.1 Mae Rhanbarth De-orllewin Cymru (RhDoC) wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus fel rhan o bartneriaeth y 4 awdurdod lleol (a'r ddau Barc Cenedlaethol) yn Ne-orllewin Cymru trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe – rhaglen gwerth £1.3bn sy'n cwmpasu arloesi digidol, seilwaith, ynni, gweithgynhyrchu clyfar, cyflymu economaidd, sgiliau a her.
- 2.2 Crewyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (CBCDoC) yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, gan sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith ar y cyd a'r enw da oedd eisoes wedi'u sefydlu trwy'r Fargen Ddinesig. CBCDoC yw ein henw cyfreithiol.
- 2.3 Mae RhDoC yn cynrychioli'r ymrwymiad ar y cyd a wnaed gan bedwar awdurdod lleol De-orllewin Cymru (a'r ddau Barc Cenedlaethol), Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, i adeiladu ar gryfderau sectorol y rhanbarth. Mae gan Dde-orllewin Cymru economi amrywiol ac asedau naturiol a diwylliannol unigryw, gydag ansawdd ei amgylchedd arfordirol a gwledig, ei dreftadaeth a'i gapasiti diwydiannol a'i brifysgol yn darparu sylfaen gadarn.
- 2.4 Yng Nghynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (CCERh) (2021-30) ceir gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer adeiladu economi gydnerth, gynaliadwy. Uchelgais y Cynllun yw arwain y Deyrnas Unedig ym maes ynni glân a phontio i sero net, cryfhau'r sylfaen leol o fusnesau, tyfu'r economi profiadau, cyflwyno twf cynhwysol a theg, a chydlynu'r cyfan yn rhanbarthol er mwyn sicrhau effaith strategol. Mae'r Cynllun yn datblygu Bargen Ddinesig Abertawe a Strategaeth Adfywio Economaidd 2014.
- 2.5 Mae RhDoC yn mynd ati'n gynhwysol i gyflawni tair nod strategol bod yn rhanbarth mwy cystadleuol, cysylltiedig a chydnerth – o'r ffocws ar glystyrau; ymchwil ac arloesi; i gynlluniau buddsoddi gwyrdd; seilwaith sy'n creu cysylltiadau o fewn ac ar draws ein lleoedd; a phwyslais ar gynyddu maint ac ansawdd ein gweithlu a sgiliau sy'n ymateb i'r galw. Nodweddion RhDoC yw cynhyrchiant ac addasrwydd ar gyfer bywyd, ochr yn ochr â sylfaen gadarn, wedi'i gwreiddio ar gyfer busnes.



- 2.6 Mae'r nodau pendant a geir isod yn ymateb yn uniongyrchol i bob un o'r uchelgeisiau a amlygir yn y CDERh – mynd i'r afael ag anghyfartaledd economaidd a hybu twf; gwella seilwaith ffisegol a digidol; gwella gallu a chapasiti o ran arloesedd; a, datgarboneiddio ein hamgylchedd erbyn 2050. Un nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn arweinydd yn y Deyrnas Unedig ym maes ynni adnewyddadwy, gyda ffocws ar ddatgarboneiddio arloesi a datblygu'r gadwyn gyflenwi ym maes diwydiant. Mae ymateb i her yr hinsawdd wrth wraidd ein gweithredu ac yn elfen o bob un o'n nodau strategol, gan sicrhau ffocws ar yr economi werdd; tai a thrafnidiaeth cynaliadwy; a sicrwydd ynni.

Ffigur 1: CCERh – Uchelgeisiau a Nodau (Cymerwyd o'r CCERh)



- 2.7 Bydd y CDS yn cyflawni rol allweddol trwy alinio strategaethau rhanbarthol ar draws RhDoC, ac mae'n hanfodol i hybu twf cynaliadwy, cadarn. Trwy ddarparu fframwaith cydlynus, mae'r CDS yn sicrhau bod sectorau allweddol—megis defnydd tir, trafndiaeth, tai a datblygu economaidd—yn derbyn sylw mewn modd integredig yn hytrach nag yn ynysig.
- 2.8 Mae alinio polisiau fel hyn yn cefnogi cynllunio hirdymor sy'n cydbwyso twf economaidd â chynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch cymdeithasol. Trwy weledigaeth a rennir, bydd y CDS yn galluogi'r rhanbarth i wneud penderfyniadau strategol sydd nid yn unig yn diwallu anghenion y presennol, ond hefyd yn rhagweld heriau'r dyfodol, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, gwelliannau seilwaith, a galw cynyddol am dai.

2.9 Eifen yr un mor bwysig yw'r ffaith y bydd y CDS yn sbarduno cydweithio rhwng gwahanol rannau RhDoC, gan newid y ffocws o ddull gweithredu swm-sero—lle gwelir mantais i un ardal fel colled i un arall—i bersbectif enillion i bawb. Trwy nodi a chydbwysu cyfnewidiadau strategol mewn modd tryloyw, bydd y CDS yn sicrhau bod twf rhanbarthol yn gydlynus ac yn gynaliadwy, gan wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a rennir a manteisio ar gyfleoedd sydd er budd cyffredinol i'r rhanbarth yn ei grynsyth. Mewn gair, mae'r CDS yn hanfodol er mwyn alinio strategaethau'r rhanbarth a sicrhau bod twf RhDoC nid yn unig yn gydlynus a chydgyssylltiedig, ond hefyd yn anelu at greu dyfodol cadarn, teg a llewyrchus i bawb.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru (DoC)

2.10 Mae CTRhDoC yn ddogfen strategol allweddol ar gyfer y rhanbarth, gan fod symud pobl a nwyddau'n effeithlon yn rhan hanfodol o lwyddiant y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a sbarduno twf economaidd cynaliadwy. Ochr yn ochr â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh), mae'r CTRh yn amlinellu sut bydd trafndiaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe yn cael ei wella rhwng 2025 a 2030. Mae'n pennu agenda glir ar gyfer moderneiddio a datgarboneiddio'r system drafndiaeth trwy wneud y canlynol:

- Cefnogi twf economaidd
- Lleihau dibyniaeth ar deithio mewn ceir preifat
- Gwella hygyrchedd a chysylltedd
- Lleiafu effeithiau amgylcheddol

Defnydd Tir a Thrafnidiaeth

2.11 Mae integreiddio ystyriaethau trafndiaeth i CDS De-orllewin Cymru yn cyflwyno manteision pwysig trwy alluogi dull mwy cydweddus, effeithlon a chynaliadwy o ddatblygu'n rhanbarthol. Mae'r Cytundeb Cyflawni Drafft yn pwysleisio bod cydlynio cynllunio trafndiaeth â chynllunio gofodol yn helpu i ddylanwadu ar batrymau datblygu, lleihau'r angen am deithio, a gwella cysylltedd rhwng defnyddiau tir allweddol trwy ddatrysiadau trafndiaeth integredig, amlfoddol. Mae hynny'n cryfhau dewisiadau teithio cynaliadwy, yn cefnogi datblygiad economaidd, ac yn cyfrannu at weledigaeth hirdymor o ranbarth cystadleuol, cysylltiedig a chydnerth. Mae dull gweithredu unedig ar draws ardal y Cyd-bwyllgor Corfforaethol hefyd yn hybu cysondeb ar draws ffiniau, yn adlewyrchu ymddygiad teithio a swyddogaethau economaidd go iawn, ac yn sicrhau bod

penderyniadau defnydd tir a seilwaith trafndiaeth yn ategu ei gilydd yn hytrach na bod yn ynysig. Mae integreiddio o'r fath yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau cefnogaeth y cyhoedd a'r llywodraeth i gynlluniau pwysig, ac mae'n cyfrannu at strategaeth ranbarthol fwy cadarn, sy'n cael ei gyrru gan dystiolaeth.

Cyfle Cyd-destun Polisi y CBC

- 2.12 Ym mis Mehefin 2022, trosglwyddwyd y gofyniad i awdurdodau lleol gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (CDS) i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig rhanbarthol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Sefydlodd y Ddeddf bedwar CBC yng Nghymru: Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru.
- 2.13 Roedd y Ddeddf yn ymateb i'r angen am ddull strategol o ymdrin â defnydd tir a chynllunio trafndiaeth, gan weithio mewn modd rhanbarthol mwy cydlynus nag y llwyddwyd i'w gyflawni yn y gorffennol, ac wedi'i alinio'n glos ag uchelgeisiau datblygu economaidd.
- 2.14 Gyda hynny mewn golwg, mae gofyn bod CBCau trwy offeryn statudol yn hybu llesiant economaidd, cynllunio gofodol a chynllunio trafndiaeth ranbarthol. Mae'r Ddeddf yn datgan y bydd y CBCau yn cefnogi integreiddio cynllunio trafndiaeth a defnydd tir trwy eu tair swyddogaeth gyffredinol, sef paratoi:
- Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (yn achos RhDoC, adlewyrchir hynny yn y CCERh);
 - Cynllun Datblygu Strategol (CDS); a
 - Chynllun Trafndiaeth Rhanbarthol (CTRh).
- 2.15 Trwy'r pontio diweddar i'r math newydd hwn o gorff cyhoeddus rhanbarthol, mae gennym gyfle unigryw i ddatblygu polisi ac ymyriadau rhanbarthol trawsffurfiannol. Cyflawnir hynny trwy sicrhau cysylltedd ar draws llesiant economaidd, cynllunio gofodol a thrafndiaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud yn fawr o'u potensial.
- 2.16 Mae ein ffocws ar greu lleoedd a sbarduno twf cynhwysol yn y rhanbarth yn dibynnu ar allu creu cydlyniant rhwng y pwerau statudol newydd, ac mae RhDoC wedi llunio'i bortffolio o strategaethau a chynlluniau i gyflawni hynny.
- 2.17 Mae'r canllawiau statudol ar gyfer CBCau (a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2022), yn cydnabod cyd-ddigwyddiad dyletswyddau llesiant economaidd, lle mae gan y cynghorau

dan sylw a'r CBCau yr un pwerau'n fras. Mewn sefyllfa felly, byddai'r CBC "yn ceisio cytuno ar broses gyda'r cynghorau sy'n rhan ohono er mwyn nodi sut rheolir gweithrediad y swyddogaethau cyfatebol."

- 2.18 Fodd bynnag yn achos pwerau cynllunio gofodol strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol, nad ydynt yn cyd-ddigwydd, "bydd cyflawni swyddogaethau ar y lefel leol yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir yn rhanbarthol gan y CBCau; hynny yw o ran natur y penderfyniad ac amseriad penderfyniadau".
- 2.19 Roedd y canllawiau'n canolbwyntio ar y trefniadau statudol a chyfansoddiadol ar gyfer CBCau, yn hytrach na manylu'n benodol ar y swyddogaethau i'w cyflawni. Gyda hynny mewn golwg, mae'n ofynnol bod RhDoC yn datblygu CDS a CTRh wedi i ganllawiau ar wahân gael eu cyhoeddi'n benodol ar gyfer y dyletswyddau hyn, nad ydynt yn cyd-ddigwydd.
- 2.20 Gan fod cynllunio strategol a thrafnidiaeth yn elfennau allweddol o greu lleoedd, mae hefyd yn bwysig bod cyfatebiaeth agos rhwng y CTRh a'r CDS. Fodd bynnag, nid yw iteriad cyntaf y CDS i gael ei ddatblygu oddi mewn i amserlen y CTRh cyntaf. Mae'n debygol felly na fydd iteriad cyntaf y CTRh yn gallu cymryd i ystyriaeth lawn gynllunio datblygu strategol; yn hytrach, dylai sefydlu mecanweithiau ar gyfer cyflawni hynny wrth symud ymlaen, gan gyd-fynd â'r nodau cyffredinol ar gyfer llesiant economaidd.

3. Rôl y Cytundeb Cyflawni (CC) a Chynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)

3.1 Mae'r Cytundeb Cyflawni (CC) a Chynllun Cynnwys y Gymuned (CCG) yn nodi cychwyn ffurfiol y broses o baratoi'r CDS. Un o nodau craidd y system cynlluniau datblygu yng Nghymru yw cynnwys y gymuned mewn modd effeithiol, ystyrion yn gynnar, gyda'r bwriad o feithrin consensws cyffredinol ar y strategaeth ofodol, polisïau strategol, a chynigion yn y CDS. Mae'r dull gweithredu cyfranogol hwn yn sicrhau cynhwysiant a bod anghenion a dyheadau'r gymuned yn cael eu hadlewyrchu.

Elfennau'r Cytundeb Cyflawni (CC)

3.2 Datganiad cyhoeddus yw'r CC sy'n cynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG), ac yn nodi sut a phryd gall rhanddeiliaid a'r gymuned ymwneud â'r broses o greu'r cynllun. Mae hynny'n sicrhau tryloywder a chynhwysiant o'r cychwyn. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer paratoi'r CDS, gan nodi terfynau amser a cherrig milltir clir ar gyfer gwahanol gyfnodau'r broses.

3.3 Swyddogaethau'r CC:

- **Ategu Rôl y CDS:** Mae'n amlygu'r CDS fel offeryn rhanbarthol critigol yn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).
- **Ymgysylltu â'r Gymuned a Rhanddeiliaid:** Mae'n nodi pryd a sut gallan nhw fod yn rhan o broses y CDS.
- **Pennu Disgwyliadau Realistig:** Mae'n egluro gallu'r CBC o ran amser, adnoddau a disgwyliadau.
- **Sicrhau Adnoddau:** Mae'n sicrhau bod adnoddau cyllideb a staff yn cael eu neilltuo er mwyn paratoi'r CDS.
- **Egluro Cwmpas a Dylanwad:** Mae'n diffinio cwmpas y cynllun a'i effaith bosibl.
- **Hwyluso Cydlyn:** Mae'n sicrhau aliniad â strategaethau a dogfennau rhanbarthol eraill megis Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Bargeinion Dinesig/Twf.

Mae Tabl 1 yn crynhoi'n fras y cyfnodau sy'n rhan o gynhyrchu a chytuno ar Gytundeb Cyflawni.

Tabl 1: crynodeb o'r camau sy'n rhan o baratoi'r CC.

Cyfnod	Disgrifiad	Amseriad
Cyfnod 1: Cychwyn	Paratoi'r CC drafft a chynnwys cyrff ymgynghori penodol yn anffurfiol yng nghyswilt y cwrpas a'r cynnwys. Bydd y CC drafft yn cael ei ddiwygio lle bo hynny'n briodol.	Medi-Rhagfyr 2025
Cyfnod 2: Ymgynghori	Ymgynghori ar y CC drafft (5 wythnos)	Ionawr – Chwefror 2026
Cyfnod 3: Cymeradwyo	Mabwysiadu'r CC trwy benderfyniad y CBC.	Mawrth 2026
Cyfnod 4: Cytuno	Cyflwyno'r CC terfynol i Lywodraeth Cymru gytuno arno.	Mawrth 2026
Cyfnod 5: Cyhoeddusrwydd	Cyhoeddi'r CC cymeradwy gan ddarparu copïau i'w harchwilio ym Mhrif Swyddfa/Swyddfeydd y CBC ac ar ei wefan.	Cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl wedi i Lywodraeth Cymru gytuno ar y CC

3.4 Rhaid i'r CC gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad gan y CBC, yn unol â Rheoliad CDS 11(2) cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gytuno arno. Mae cymeradwyo'r CC yn nodi cychwyn ffurfiol y broses o baratoi'r cynllun, ac mae'r CBC wedi ymrwmo i gadw at y terfynau amser a'r prosesau ymgynghori a nodwyd. Rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r CC, a sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio ym Mhrif Swyddfa/Swyddfeydd y CBC ac ar ei wefan, yn unol â Rheoliad CDS 12.



4. Paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS)

4.1 Mae nifer o gyfnodau allweddol yn rhan o broses y CDS, ac mae pob un o'r rhain yn cynnig cyfleoedd i gynnal deialog, fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol		Cyfleoedd i ymwneud â hyn
Cyfnod 1	Paratoi a chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni	Ymgynghori â rhanddeiliaid ac yn anffurfiol â'r cyhoedd
Cyfnod 2	Paratoi'r Cynllun Cyn-Adnau a recriwtio	Darparu'r newyddion diweddaraf ar wefan CBC DoC
Cyfnod 3	Paratoi'r Strategaeth a Ffafir ac ymgynghori â'r cyhoedd	6 wythnos o ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd
Cyfnod 4	Paratoi'r Cynllun Adnau ac ymgynghori â'r cyhoedd	6 wythnos o ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd
Cyfnod 5	Cyflwyno i PEDW a Llywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus	Darparu'r newyddion diweddaraf ar wefan CBC DoC
Cyfnod 6	Archwilio'r Cynllun	Cyfle i fynychu a chyfranogi yn sesiynau gwrandawriad yr archwiliad
Cyfnod 7	Adroddiad yr Arolygydd	Darparu'r newyddion diweddaraf ar wefan CBC DoC
Cyfnod 8	Mabwysiadu'r Cynllun	Darparu'r newyddion diweddaraf ar wefan CBC DoC

Llywodraethiant

4.2 Roedd y canllawiau statudol yn gofyn bod Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (IBCS) yn cael ei sefydlu, gyda chyfrifoldeb am baratoi'r CDS i'w gymeradwyo gan y CBC. Bydd yr IBCS yn sicrhau cynrychiolaeth a mewnbwn gwleidyddol wrth baratoi a gweithredu'r CDS. Bydd hefyd yn blatfform i gynnwys eraill a sicrhau bod cyngor priodol sector-benodol ac arbenigol ar gael i gefnogi penderfyniadau'r CBC.

4.3 Mae'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn cynnwys 5 aelod, sef yr Aelod Gweithredol â chyfrifoldeb am Gynllunio o bob un o'r 4 Cyngor dan sylw, a 2 Aelod sy'n cynrychioli'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r Is-bwyllgor yn cyflwyno argymhellion i'w cymeradwyo ar agweddau allweddol ar y CC, a hefyd yn ystyried y gofyniad i sicrhau adnoddau ar gyfer proses y cynllun yn gyffredinol.

Deilliannau Allweddol

4.4 Yn unol â'r 'Llawlyfr' CDS, nod y cynllun fydd cyflawni'r deilliannau allweddol canlynol:

- Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o safon ar sail y Deilliannau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, sydd wedi'u halinio â Cymru'r Dyfodol, polisi cenedlaethol (a gyflwynir yn PCC), ac wedi'u hintegreiddio ag AC/AAS/ARhC, gan gynnwys y Gymraeg a gofynion DLICD 2015.
- Bod yn seiliedig ar gynnwys y gymuned yn gynnar, mewn modd effeithiol ac ystyrlon, er mwyn deall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o feithrin consensws cyffredinol ar y strategaeth ofodol, polisiâu a chynigion.
- Bod wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth y rhanbarth, yn ogystal â chysylltiadau y tu hwnt i hynny.
- Ystyried sut mae dinasoedd, trefi ac aneddiadau'n gweithredu'n unigol ac ar y cyd, yn rhanbarthol ac fel is-ranbarthau (lle bo hynny'n briodol), gan ddylanwadu ar y strategaeth ofodol. Dylai hyn gael ei seilio ar dystiolaeth glir er mwyn cyflawni'r materion allweddol a nodwyd yn y rhanbarth.
- Bod yn unigryw trwy nodi'n glir sut bydd De-orllewin Cymru yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnes, a darparu fframwaith ar gyfer CDLliao 'Cryno' (CDLIC).
- Bod yn gydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r pontio i gymdeithas garbon isel yn unol â'r targedau a'r cyllidebau lleihau carbon diweddaraf a nodwyd yn Neddf Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2) a chyflawni gofynion adran 6, dyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.
- Helpu i gyflawni dyletswydd sosio-economaidd RhDoC.
- Ymgorffori egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni, fel y nodir yn PCC.
- Sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn unol â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth arall berthnasol.
- Cyflawni'r hyn a fwriadir trwy gynlluniau dichonadwy, gan gymryd i ystyriaeth ofynion seilwaith angenrheidiol, dichonoldeb ariannol, a ffactorau marchnad eraill.
- Bod yn rhagweithiol ac yn ymatebol, gan ddiweddarau cynlluniau'n rheolaidd a'u cadw'n hyblyg fel bod modd newid.

Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau sy'n berthnasol wrth baratoi'r CDS

- 4.5 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 sy'n sefydlu'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau) yng Nghymru. Prif amcan y rheoliadau hyn yw sicrhau bod CDSiau yn cael eu paratoi'n gyson ac yn effeithiol ar draws y wlad.
- 4.6 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi paratoi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Strategol (Llawlyfr CDS) yn ganllaw cynhwysfawr ar gyfer paratoi CDSiau. Mae'n cynnig cyngor ymarferol i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn effeithiol, yn gyflawnadwy, ac yn cyfateb i bolisiau ac amcanion trosfwaol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), "Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040," yn ogystal ag egwyddorion creu lleoedd a amlinellir yn y polisi cynllunio cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru (PCC).
- 4.7 Dosbarthwyd y fersiwn ddrafft o'r Llawlyfr CDS i'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yn hydref 2022. Mae'r fersiwn derfynol i gael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2026. Mae'r amserlen hon yn caniatáu ar gyfer adborth a mireinio digonol, fel bod y ddogfen derfynol yn gadarn ac yn ddefnyddiol i bob CBC ac ACLI sy'n rhan o'r broses gynllunio. Mae'r dogfennau canlynol hefyd yn berthnasol wrth baratoi CDSiau, a dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r Llawlyfr CDS:
- Cymru'r Dyfodol: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)
 - Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004) Rhan 6
 - Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 (Deddf ELILC)
 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICD 2015)
 - Polisi Cynllunio Cymru (PCC): Argraffiad diweddaraf Llywodraeth Cymru
 - Canllaw Cymunedol i Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 2) (2022): Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru
 - Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllawiau Gweithdrefn (2015): I'w diweddarau gan Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW)
 - CDLliao: Paratoi i'w Cyflwyno – Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol (2015): Hefyd i'w diweddarau gan PEDW
 - Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)
 - Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016: Yn cynnwys Adran 6 a Datganiadau Ardal
 - Deddf yr Amgylchedd 1995, yn cynnwys Adran 62(2), sy'n gosod dyletswydd ar gyrfff cyhoeddus a phersonau perthnasol i roi ystyriaeth i ddibenion dynodi Parciau

Cenedlaethol. Ar ben hynny, bydd y CDS yn rhoi sylw dyledus i Gynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol.

- Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.
- Bill Cynllunio (Cymru), sy'n dod i'r amlwg ac a fydd yn hwyluso cadarnhau pellach ar ddeddfwriaeth gynllunio yng Nghymru i'r dyfodol.
- Canllaw Cymunedol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol, wedi'i baratoi gan Gymorth Cynllunio Cymru (i'w gyhoeddi'n fuan).

Dull Asesu Integredig: Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) ac asesiadau eraill cysylltiedig

4.8 Rhaid i'r CDS fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC a Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf 2015). Mae'r CBC yn cydnabod gwerth dull asesu integredig wrth baratoi'r CDS, a'r cyfleoedd a ddaw yn sgîl hynny. O ganlyniad, bydd yr AC/AAS yn Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n ymgorffori'r gofynion statudol ac elfennau allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLICD) 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb, safonau'r Gymraeg, Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI) a Deddf yr Amgylchedd (adran 6) (lle bo hynny'n berthnasol) mewn un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), fel bod modd asesu goblygiadau cynaliadwyedd opsiynau twf, amcanion, polisiâu a chynigion mewn modd mwy tryloyw, cyfannol a chrwn, lle caiff materion economaidd a chymdeithasol eu hystyried ochr yn ochr ag elfennau amgylcheddol.

4.9 Mae proses yr AC/AAS yn un iteraidd a gyflawnir ar hyd y cyfnod o baratoi'r cynllun, ac mae chwe cham hanfodol iddi:

- Sefydlu'r cyd-destun polisi, nodi a chofnodi'r sylfaen o dystiolaeth, nodi materion cynaliadwyedd a datblygu amcanion a dangosyddion yr ACI/AAS
- Ymgynghori â LIC, CADW a CNC ynghylch Adroddiad Rhychwantu'r ACI
- Cyhoeddi Adroddiad ACI o'r opsiynau Strategol a'r Strategaeth a Ffafrir
- Cyhoeddi Adroddiad ACI Adnau, gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol (gyda'r CDS)
- Cyhoeddi'r Adroddiad ACI terfynol wedi Adroddiad yr Arolygydd a'i fabwysiadu
- Monitro'r ACI a'i roi ar waith

- 4.10 Ar ddechrau proses yr ACI/AAS, bydd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar Adroddiad Rychwantu'r ACI sy'n nodi sut cyflawnir proses yr ACI/AAS. Bydd tystiolaeth o ganfyddiadau'r gwaith ACI/AAS yn cael ei darparu ar adegau allweddol yn y broses o baratoi'r CDS. Caiff adroddiadau eu paratoi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffafir y CDS Adnau, yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Cyflwynir Adroddiad ACI terfynol ynghyd â holl ddogfennau eraill y CDS i PEDW a Llywodraeth Cymru ei archwilio. Ymgynghorir â'r Cyrff Amgylcheddol statudol yn yr holl gyfnodau y cyfeirir atynt uchod, a bydd deialog ehangach parhaus gyda'r cyrff hyn wrth i'r broses fynd rhagddi.
- 4.11 Ni fydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn cael ei integreiddio â'r ACI oherwydd ei fod yn defnyddio mecanwaith profi rhagofalus gwahanol. Bydd yr ACI yn crynhoi canfyddiadau'r ARhC fel rhan o'i asesiad o'r effeithiau ar fioamrywiaeth.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

- 4.12 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn broses a orfodir gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, (Erthygl 6(3)), er mwyn asesu a yw unrhyw gynllun neu brosiect defnydd tir yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeidd, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau eraill. Trwy ddilyn cyfnodau allweddol yr ARhC, mae modd datblygu'r CDS yn unol â gofynion cyfreithiol, ochr yn ochr â diogelu integriti safleoedd Ewropeidd a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig â nhw.
- 4.13 Mae De-orllewin Cymru yn wynebu amrywiol broblemau o ran ansawdd dŵr afonydd a morol. Mae Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac AGA Forol Sir Benfro yn cael eu hystyried fel rhai sydd mewn cyflwr anffafriol oherwydd nitrogen anorganig hydawdd a dangosyddion biolegol sy'n gysylltiedig â chyfoethogiad maetholion. Ar 25 Mehefin 2025 cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor bod rhaid i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at ollwng nitrogen ychwanegol yn yr AGA hon sy'n sensitif i nitrogen fod yn 'niwtral o ran maetholion' er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo. Mae angen asesu pellach i fesur y llwyth nitrogen sy'n deillio o safleoedd datblygu a nodi sut gellid lleihau hynny trwy liniaru ar y safle. Yna defnyddir yr wybodaeth hon yn dystiolaeth o fewn y CDS a'i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).
- 4.14 Bydd angen i'r CDS a'r ARhC gydnabod yr her gynyddol i lunwyr cynlluniau a datblygwyr yng Nghymru fodloni gofynion bod yn niwtral o ran maetholion oddi mewn i dirlun rheoliadol cymhleth. Mae llwyth gormodol o faetholion o ddŵr gwastraff, amaethyddiaeth a diwydiant wedi rhoi afonydd, aberoedd a dyfroedd arfordirol o dan bwysau. Mae CNC bellach yn galw am asesiadau cadarn lle mae perygl y bydd datblygiadau'n cynyddu'r

maetholion a ryddheir i ACAu sy'n methu, heb gapasiti ar gyfer llwyth ychwanegol heb effeithiau niweidiol ar integriti'r Safle Cynefin. Mae hyn wedi creu sbardunau cryf ar gyfer dulliau gweithredu rhagofalus, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cydbwysu twf â diogelu dyfrgryff sensitif, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynefinoedd a chynnal gwydnwch ecolegol hirdymor.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

4.15 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA) yn cyflwyno'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r diffiniad yn DLICD 2015. Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant. Mae DLICD 2015 yn pennu saith nod llesiant, y mae gofyn bod pob corff cyhoeddus yn eu cyflawni:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

4.16 Bydd y CDS yn dangos sut mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd y dull a ddefnyddir i arfarnu'r cynllun trwy'r ACI yn galluogi'r CBC i ddeall lle gall y cynllun fwyafu ei gyfraniad. Dylai'r nodau llesiant fod yn rhan annatod o baratoi Adroddiad Rhychwantu'r ACI, a dylid eu defnyddio i lywio'r adolygiad o'r dystiolaeth, nodi materion a strwythuro fframwaith yr ACI, gan asesu opsiynau twf, amcanion, polisiau a chynigion y cynllun

4.17 Mae DLICD 2015 hefyd yn nodi pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u defnyddio wrth ymgymryd â'u dyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy, sef:

- Meddwl yn yr hirdymor er mwyn peidio â pheryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- Deall achosion gwaelodol materion i'w hatal rhag digwydd neu waethygu.
- Defnyddio dull gweithredu integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.

- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw; a
- Gweithio gydag eraill mewn modd cydweithredol i ganfod atebion cynaliadwy a rennir.

4.18 Bydd y nodau llesiant, yr amcanion, a'r pum ffordd o weithio yn llywio datblygiad fframwaith yr ACI. Y fframwaith hwnnw fydd y sylfaen ar gyfer asesu effeithiau sylweddol tebygol y CDS. Bydd y broses iteraidd hon yn profi cryfderau, gwendidau, ac effeithiau amgylcheddol tebygol yr elfennau a gynigir, er mwyn datblygu a mireinio'r CDS wrth iddo symud ymlaen.

Cynllun Corfforaethol CBC DoC 2023-2028

4.19 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys tri amcan llesiant y CBC, sy'n darparu ffrâm ar gyfer cyfeiriad teithio corfforaethol y CBC.

4.20 Mae Amcan 3 yn y Cynllun Corfforaethol yn ymwneud â'r CDS:

Cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol cadarn, cyflawnadwy, cydlynus sy'n cydweddu â'r ardal leol ar gyfer De-orllewin Cymru, a hynny wedi'i seilio ar ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid, a chan nodi'n glir raddfa a lleoliad twf yn y dyfodol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4.21 Rôl y CDS yw darparu mynegiant o uchelgais gorfforaethol y CBC ar ffurf defnydd tir. Mae amcanion y Cynllun Corfforaethol yn darparu sylfaen ar gyfer penderfyniadau ar draws y CDS.

4.22 Mae cryn dipyn o waith rhanbarthol eisoes yn digwydd ym maes cynllunio datblygu yn Ne-orllewin Cymru ac mae'r Cynllun Corfforaethol wedi seilio'i gynlluniau at y dyfodol ar y sylfeini hynny. Bydd y broses o baratoi'r CDS yn dod o dan ddylanwad canllawiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Strategol) a'r adnoddau a ddarparwyd.

Sylfaen o Dystiolaeth

4.23 Seilir y CDS ar sylfaen gadarn a chymesur o dystiolaeth wedi'i theilwra ar gyfer yr heriau penodol mae'n ymdrin â nhw. Y CBC sy'n gyfrifol am adolygu materion cysylltiedig â datblygiad yn barhaus o fewn ei ardal, yn unol ag adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004). Mae'r broses adolygu hon yn parhau, a hynny cyn i'r CDS gael ei fabwysiadu ac wedyn.

- 4.24 Wrth baratoi CDS, bydd y CBC yn cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn y rhanbarth. Mae'r archwiliad hwn yn cynnwys mynd ati'n feirniadol i ddadansoddi a rhesymoli methodolegau safonol a ddefnyddir ar gyfer llunio a choladu tystiolaeth, gan sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r sylfaen o dystiolaeth ymhellach. Ar ben hynny, bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) yn allweddol wrth lywio'r CDS trwy nodi ble a sut mae polisiâu presennol y CDLI wedi bod yn llwyddiannus neu lle nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r bwriad.
- 4.25 **Ystyried Perthnasedd y Dyddiad Sylfaen:** rhaid mynd ati'n ofalus i werthuso perthnasedd dyddiad sylfaen tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â pholisi cynllunio cenedlaethol cyfredol. Mae polisiâu cenedlaethol yn esblygu dros amser, gyda pholisiâu newydd yn cael eu cyflwyno ac eraill yn cael eu diddymu, gan effeithio ar y sylfaen o dystiolaeth sy'n cynnal cynlluniau. Mae'n hanfodol asesu a yw'r dystiolaeth sy'n bodoli yn dal yn 'addas at y diben' neu a oes angen ei diweddarau i gyfateb i'r newidiadau polisi hyn.
- 4.26 **Integreiddio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLliau):** er y bydd y CDS yn cymryd i ystyriaeth y CDLliau sydd eisoes yn bodoli ar draws y rhanbarth, ni fydd yn cyfuno eu polisiâu, eu cynigion a'u dyraniadau heb ystyried strategaeth hirdymor ar gyfer y rhanbarth. Bydd ymrwymadau a dyraniadau CDLliau a fabwysiadwyd eisoes yn cyfrannu at elfennau tymor byr i ganolog y genhedlaeth gyntaf o CDSiau.
- 4.27 Bydd gweledigaeth glir ar gyfer y rhanbarth, sy'n rhoi sylw i sbardunau newid ac yn ymateb i gyfleoedd, yn bwysig ar gyfer y cyfeiriad hirdymor. Bydd rhaid i'r weledigaeth wneud dewisiadau ynghylch mynegi strategaeth ofodol gynaliadwy, rôl lleoedd a lleoliadau ar gyfer gweithgareddau defnydd tir strategol, yn ogystal â strategaethau ar gyfer pob ACLI sy'n rhan o ardal y CDS. Er y gall CDLliau ddarparu blociau adeiladu ar gyfer cyfnod byr dymor i dymor canolog CDS, dylid ystyried y weledigaeth hirdymor o'r newydd.
- 4.28 **Asesiadau Sylfaen o Dystiolaeth a Ragwelir:** manylir ar yr asesiadau sylfaen o dystiolaeth y rhagwelir fydd yn ofynnol ar gyfer paratoi'r CDS yn **Atodiad 1**.

Archwiliad Annibynnol a Chadernid

- 4.29 Rhaid i'r CBC beidio â chyflwyno'r CDS oni bai ei fod o'r farn bod y cynllun yn barod i'w archwilio (Adran 64(2) o ddeddf 2004). Bydd y CDS hefyd yn cael ei ystyried yn erbyn y

profion cadernid a nodir yn y Llawlyfr CDS. Dyma'r tri phrawf:

- Prawf 1: Ydy'r cynllun yn ffitio? (Ydy hi'n amlwg bod y CDS yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)
- Prawf 2: Ydy'r cynllun yn briodol? (Ydy'r cynllun yn briodol ar gyfer y rhanbarth yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
- Prawf 3: Fydd y cynllun yn cyflawni? (Ydy e'n debygol o fod yn effeithiol?)

Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Rheoliadol wrth Baratoi'r Cynllun

4.30 Rhaid i'r broses o baratoi'r cynllun gydymffurfio ag ystod o ofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoliadol, sy'n cynnwys:

- Yr ACI (Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig)
- Rheoliadau'r AAS (Asesiad Amgylcheddol Strategol)
- Rheoliadau'r ARhC (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd), a'r
- CCG (Cynllun Cynnwys y Gymuned).

4.31 Ymhellach, rhaid i'r CDS gydymffurfio'n gyffredinol â Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd y CBC hefyd yn cymryd i ystyriaeth ganllawiau archwilio Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), sy'n amlinellu'r broses a'r prif ystyriaethau ar gyfer cyflwyno ac archwilio.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

4.32 Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) yn nodi'r prif Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n allweddol a safleoedd a chynigion strategol ar waith fel rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS). Ar ben hynny, bydd y CBC yn rhoi sylw i faterion ehangach ar sail fwy cyffredinol neu ranbarthol. Bydd paratoi dogfennau CDS rhanbarthol yn cynnig fframwaith effeithlon, cydlynus a chyson ar gyfer canllawiau cynllunio manwl, seiliedig ar bynciau, ledled De-orllewin Cymru. Nod y dull gweithredu hwn yw lleihau'r angen am greu dogfennau CDS tebyg sawl tro ar draws y rhanbarth, ac felly hybu cysondeb rhanbarthol a chyflawni effeithlonrwydd ariannol.

Monitro, Adolygu a Diwygio

4.33 Mae monitro yn broses barhaus, ac nid yw'n dod i ben wedi i gynllun gael ei fabwysiadu. Mae'n cynrychioli dolen adborth hanfodol sy'n rhan o'r broses gylchol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Dylai monitro ac adolygu fod yn swyddogaeth barhaus i'r system a arweinir gan gynllun, ac mae'n elfen hanfodol o lunio polisi a seiliwyd ar dystiolaeth. Mae'r prif ofynion deddfwriaethol o ran monitro ac adolygu fel a ganlyn:

- Mae PCPA 2004 (Adran 61) yn nodi bod rhaid i CBC barhau i adolygu'r materion y gellid disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu gynllunio'i ddatblygiad.
- Mae PCPA 2004 (Adran 76) a Rheoliad CDS 40 yn nodi bod rhaid i CBC gyhoeddi a chyflwyno i Lywodraeth Cymru AMB yn nodi sut mae amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni, neu beidio (erbyn 31 Hydref bob blwyddyn).
- Mae PCPA 2004 (Adran 69(1)) a Rheoliad CDS 39(1) yn datgan o'u cyfuno bod

rhaid i CBC adolygu ei CDS 6 blynedd ar ôl dyddiad ei fabwysiadu, fan bellaf.

- Mae Rheoliad CDS 39(2) yn datgan bod rhaid i'r CBC gymeradwyo trwy benderfyniad adroddiad adolygiad a baratowyd yn unol ag Adran 69(1) a chyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 69(2). Dylid cyflwyno'r 'Adroddiad Adolygu' (AA) i Lywodraeth Cymru o fewn chwe mis i sbarduno'r broses adolygu.
- Mae Rheoliad 17 o'r Rheoliadau AAS yn gofyn bod rhai cynlluniau'n cael eu monitro er mwyn nodi effeithiau niweidiol nas rhagwelwyd, fel bod modd cymryd camau adferol priodol.

Gweithio ar y Cyd

4.34 Bydd gweithio rhanbarthol ar y cyd yn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd y CDS trwy integreiddio gwahanol safbwyntiau, arbenigedd, adnoddau a rhanddeiliaid. Bydd y dull cydweithredol hwn yn caniatáu i'r CBC wneud y canlynol:

- **Pennu Nodau Cyffredin:** Sefydlu amcanion a rennir sy'n cyfateb i flaenoriaethau datblygu rhanbarthol.
- **Rhannu Gwybodaeth:** Hybu tryloywder a phenderfyniadau gwybodus trwy gyfnewid data a mewnwleidiad.
- **Cydlynu Camau Gweithredu:** Cydamseru mentrau a gweithgareddau i osgoi dyblygu ac optimeiddio defnydd o adnoddau.
- **Defnyddio Synergedd:** Mwyafu effaith cyfuno ymdrechion, gan greu deilliannau mwy effeithiol ac effeithlon.

4.35 Ymhellach, bydd gweithio ar y cyd yn meithrin:

- **Arloesedd:** Annog atebion creadigol i ddatrys heriau defnydd tir cymhleth.
- **Dysgu ac Addasu:** Hwyluso gwelliant parhaus trwy rannu profiadau ac arferion gorau.
- **Ymddiriedaeth a Chyfranogiad y Cyhoedd:** Meithrin hyder ac ymgysylltiad ymhlith aelodau'r gymuned trwy brosesau cynhwysol, tryloyw.

4.36 Bydd y CDS yn estyn ei ffocws y tu hwnt i Ranbarth De-orllewin Cymru. Mae hynny'n cynnwys bod yn rhan o ymdrechion ar y cyd â CBCau eraill yng Nghymru a chyrrff cynllunio gofodol ac awdurdodau lleol perthnasol yn Lloegr, er mwyn rhoi sylw i faterion traws-ranbarthol. Bydd cydweithredu eang o'r math hwnnw yn sicrhau cynllunio cynhwysfawr, cydlynus sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau rhanbarthol, gan ymdrin â heriau a chyfleoedd daearyddol ehangach.

5. Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)

5.1 Mae'r CCG yn sefydlu fframwaith cynhwysfawr sy'n manylu ar sut bydd y CBC yn ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid eraill ar hyd proses y CDS.

5.2 Mae'r CCG yn rhoi sylw i'r materion hynny a restrir yn Rheoliad 8 CDSiau ac yn amlinellu'r egwyddorion a'r mecanweithiau bydd y CBC yn eu defnyddio i annog cyfranogiad. Mae hynny'n cynnwys:

- Y cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol fydd yn rhan o'r broses.
- Amseru a dulliau ceisio cynnwys y gymuned, a phryd bydd hynny'n digwydd.
- Egluro sut caiff ymatebion a chynrychiolaethau a ddaw i law eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu cynnwys y CDS.

Prif egwyddorion yr ymwneud

5.3 Bydd yr egwyddorion ymgynghori canlynol yn llywio dull y CBC o gynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r CDS:

- **Ymrwymiad:** Bydd y CBC yn ceisio darparu cyfleoedd i'r gymuned gyfan (gwahanol grwpiau oed, grwpiau cymunedol lleol, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig), gan gynnwys busnesau, ymgysylltu â'r broses ar adegau priodol, gan gynnwys deunydd 'fformat annhechnegol' fel rhan o'r broses i annog ymgysylltu ehangach.
- **Cynwysoldeb:** Bydd y CBC yn annog cyfranogiad gweithredol pawb sydd â diddordeb yn y CDS neu y gallai effeithio arnynt, gan gynhyrchu dogfennau hwylus a defnyddio technegau ymgynghori hwylus i annog ymgysylltiad ehangach â'r gymuned, gan gynnwys plant a phobl ifanc.
- **Priodoldeb:** Bydd y CBC yn ceisio ymgysylltu â'r gymuned trwy'r dulliau mwyaf priodol, fel y pennir trwy ymgynghori ar y ddogfen hon.
- **Tryloywder a hygyrchedd:** Bydd y CBC yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael ar-lein ac yn mynd ati i ymgysylltu mewn modd tryloyw, agored, gan geisio mwyafu'r defnydd o dechnoleg newydd megis ymgynghori rhithwir a chyfryngau cymdeithasol.
- **Atebolrwydd:** Bydd y CBC yn cyhoeddi ar-lein ganlyniadau ymgysylltu cymunedol, ac yn ceisio sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid yn cael gwybod am ganlyniad eu hymwneud â'r cynllun.
- **Cynhyrchedd:** Bydd y CBC yn ceisio defnyddio ymgynghori rhithwir ac ymgysylltu cymunedol i sicrhau cymaint o gonsensws â phosibl ar gynnwys y CDS.
- **Realaeth:** Bydd y CBC yn ceisio sicrhau bod yr holl bartïon sy'n rhan o'r broses yn

deall ac yn parhau'n realistig ynghylch yr hyn y mae modd ei gyflawni yng nghydestun deddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru, a'r adnoddau sydd ar gael.

- 5.4 Mae'r CBC yn rhoi pwyslais pendant ar feithrin consensws ar hyd y broses o baratoi'r CDS. Nod y CBC yw sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymgysylltu'n weithredol o'r cychwyn cyntaf. Mae **Atodiad 2** yn pennu dull arfaethedig y CBC o ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned ym mhob cyfnod allweddol o baratoi'r cynllun. Bwriad hynny yw sicrhau tryloywder, cynwysoldeb a pharodrydd i ymateb ar hyd holl broses y CDS, gan annog cyfranogiad gweithredol a pharhaus gan yr holl bartïon perthnasol.

Y Gymraeg ac Ymgysylltiad Dwyieithog

- 5.5 Mae'r CBC wedi ymrwymo i hybu a chefnogi'r Gymraeg, gan sicrhau ei hyfywedd a'i thwf ledled Cymru. I gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, rhaid i broses y CDS integreiddio ystyriaethau o ran y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Yn benodol, o dan adran 62(6A) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004), mae rhaid i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) gynnwys asesiad o effeithiau posibl y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg.
- 5.6 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu'r gofynion polisi o ran y Gymraeg, tra bod Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN20): 'Cynllunio a'r Gymraeg' yn cynnig arweiniad ar ystyried yr iaith mewn cynlluniau datblygu ac ym mhroses yr ACI. Bydd y CBC yn gwerthuso effeithiau posibl y CDS ar y Gymraeg yn ystod proses yr ACI. Cofnodir y gwerthusiad hwn yn y cynllun adnau, gan fanylu ar sut mae'r ystyriaethau o ran y Gymraeg wedi derbyn sylw. Bydd proses yr ACI yn asesu effaith graddfa a lleoliad twf, gweledigaeth, amcanion, polisiau a chynigion ar y Gymraeg. Os bydd y dystiolaeth yn awgrymu effaith niweidiol, bydd y CBC yn ystyried newid y strategaeth neu nodi mesurau lliniaru.
- 5.7 Ym mhob cyfnod o'r CDS, cynhelir Safonau'r Gymraeg, a hwylusir ymgysylltu dwyieithog trwy amrywiol fesurau:
- Derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg.
 - Bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori, yn cynnwys llythyron, ffurflenni sylwadau, hysbysiadau cyhoeddus, a chylchlythyron, yn ddwyieithog.

- Bydd cynnwys gwefan y CDS yn ddwyieithog.
- Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog os gofynnir am hynny ymlaen llaw, a bydd angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i gael gwasanaethau cyfieithu.
- Bydd y dogfennau CDS drafft ar gael yn Gymraeg ar gais, a bydd y CDS terfynol a fabwysiadir ar gael mewn fformat Gymraeg a Saesneg.

Â phwy bydd y CBC yn ymgynghori?

5.8 Mae'r Rheoliadau CDS yn amlinellu'r gofynion ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio'r CC (Rheoliadau CDS 7 a 9) gan gynnwys cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol a'r cyhoedd. Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n pwysleisio ymwneud a chydweithio effeithiol fel dau o'r pum ffordd o weithio. O ganlyniad, bydd y CBC yn mynd ati'n weithredol i geisio cynnwys y grwpiau canlynol yn y broses o baratoi'r CDS. Trwy ymgysylltu â'r gwahanol grwpiau hyn, nod y CBC yw sicrhau dull cynhwysfawr a chynhwysol o fynd ati i baratoi'r CDS, gan adlewyrchu anghenion a dyheadau'r holl randdeiliaid dan sylw:

Aelodau o'r Cyhoedd

- 5.9 Ymgysylltir â thrigolion trwy ymgynghoriadau cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod modd ystyried eu barn wrth lunio'r cynllun datblygu. Bydd y CBC yn datblygu ac yn cynnal cronfa ddata ymgynghori sy'n cynnwys gwybodaeth gyswllt a manylion ymgynghori'r unigolion, yr asiantaethau, y sefydliadau a'r grwpiau cymunedol hynny sydd am fod yn rhan o broses y CDS. Bydd y gronfa ddata yn cynorthwyo'r CBC i reoli proses y CDS, ac yn galluogi partïon â diddordeb i dderbyn gwybodaeth am gynnydd a diweddariadau rheolaidd.
- 5.10 Daeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) i rym ym mis Mai 2018, gan osod cyfyngiadau newydd ar sut gall sefydliadau gadw a defnyddio data personol, a diffinio hawliau ynghylch y data hwnnw. O ganlyniad i GDPR, rhaid i unrhyw bartïon â diddordeb roi eu caniatâd, yn ysgrifenedig, os ydynt am gael eu hychwanegu at y gronfa ddata newydd o randdeiliaid. Bernir bod unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ar unrhyw adeg ym mhroses y CDS wedi rhoi eu cydsyniad, ac fe'u hychwanegir at y gronfa ddata o randdeiliaid. Bydd hynny'n galluogi'r CBC i weinyddu eu sylwadau a darparu gwybodaeth reolaidd iddyn nhw. Bydd cynrychiolwyr hefyd yn cael cyfle i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

- 5.11 Os bydd unrhyw berson, grŵp, sefydliad neu gwmni yn dymuno ymwneud â pharatoi'r CDS, gallant ofyn am gael eu hychwanegu at y gronfa ddata o randdeiliaid trwy gofnodi eu manylion cyswllt ar wefan y CBC.

Awdurdodau Lleol ac Aelodau Etholedig

- 5.12 Bydd cydweithio â chynghorau cymdogol a chynrychiolwyr etholedig yn sicrhau aliniad rhanbarthol ac integreiddio strategaethau. Ymgynghorir yn ffurfiol ag Awdurdodau Lleol ym mhob cyfnod allweddol o broses y CDS trwy eu Prif Weithredwyr a'u Harweinwyr. Cyfathrebir trwy e-bost. Bydd y CBC hefyd yn cyfleu gwybodaeth ac yn ceisio mewnbwn gan y canlynol:

- Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW)
- Grŵp Cynllunio Rhanbarthol Gorllewin Cymru (WWRPG)
- Swyddogion perthnasol mewn arbenigeddau eraill megis trafndiaeth ranbarthol a datblygu economaidd.
- Ymgysylltir â Phrif Weithredwyr a chyfarwyddwyr y rhanbarth trwy'r fforymau perthnasol (Bwrdd Cyfarwyddwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRDB) a Bwrdd Ymgynghorol y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSAB))

- 5.13 Er mwyn sicrhau bod Cynghorwyr Awdurdod Lleol yn ymgysylltu'n briodol â phroses y CDS, gallant ofyn am gael eu hychwanegu at gronfa ddata'r CDS. Bydd hynny'n golygu bod modd ymgynghori â nhw a darparu gwybodaeth iddynt yn rheolaidd ym mhob cyfnod allweddol o broses y CDS. Bydd yr holl gyfathrebu â Chynghorwyr yn digwydd trwy e-bost, gan sicrhau diweddarau prydlon ac uniongyrchol. Ar ben hynny, bydd Awdurdodau Lleol yn helpu i rannu'r wybodaeth hon ymhlith eu Cynghorwyr trwy rwydweithiau mewnol sefydledig, gan helpu i gynnal llinellau cyfathrebu clir a sicrhau bod Cynghorwyr yn derbyn gwybodaeth reolaidd ar hyd y broses.

Cynghorau Tref a Chymuned

- 5.14 Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned rôl allweddol yn lledaenu gwybodaeth i drigolion ar faterion o bwys lleol. Maent yn ddolen gyswllt hollbwysig i gymunedau ledled De-orllewin Cymru, ac yn sicrhau bod y trigolion yn cael gwybod am faterion lleol ac ymwneud â nhw. Ymgynghorir yn ffurfiol â Chynghorau Tref a Chymuned ym mhob cyfnod allweddol o broses y CDS, gan sicrhau bod eu mewnbwn a'u hadborth yn cael eu hystyried. Ychwanegir y cynghorau hyn at gronfa ddata'r CDS, a bydd yr holl ohebiaeth yn digwydd trwy e-bost, gan hwyluso cyfathrebu effeithlon a phrydlon.

Llywodraeth Cymru

- 5.15 Bydd RhDoC yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau aliniad â pholisïau cenedlaethol, fframweithiau, a nodau datblygu cynaliadwy.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig Cyfagos

- 5.16 Bydd RhDoC yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â CBCau eraill yng Nghymru er mwyn:
- **Meithrin Diben a Rennir:** Mae'r pandemig wedi dod â chyrrff sector cyhoeddus ynghyd mewn modd na welwyd ei debyg. Wrth symud ymlaen, bydd yn hanfodol cynnal yr aliniad hwn o amgylch diben cyffredin, er mwyn gwella cydweithio a chydlyniant.
 - **Hybu Tryloywder a Bod yn Agored:** Bydd annog cyfathrebu agored, rhannu gwybodaeth, a chynnal tryloywder yn meithrin ymddiriedaeth ac yn gwella prosesau gwneud penderfyniadau.
 - **Arbenigedd Trosoli:** Bydd defnyddio'r wybodaeth arbenigol o wahanol swyddogaethau busnes yn hanfodol i lywio penderfyniadau a mireinio arfer, yn enwedig mewn meysydd megis cynllunio strategol a chlodiant.
 - **Annog Cydweithio ar draws Ffiniau:** Bydd croesawu cydweithio ar draws timau a sefydliadau yn helpu i sbarduno arloesi ac yn sicrhau bod penderfyniadau'n dal yn berson-ganolog, gan gadw cymunedau wrth wraidd ymdrechion cynllunio rhanbarthol.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- 5.17 Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yn 2015 i ddod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd i asesu a rhoi sylw i anghenion llesiant eu hardaloedd, fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn nodweddiadol, mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys arweinwyr yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, yr awdurdod tân ac achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, a hefyd gynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru, yr heddluoedd, comisiynydd yr heddlu a throsedd, a'r gwasanaethau prawf. Yn ystod cyfnodau allweddol paratoi'r CDS, bydd y CBC yn ymgynghori â'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yng Nghymru drwy e-bost:
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd
 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin
 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

Busnesau

- 5.18 Bydd y gymuned fusnes leol, gan gynnwys arweinwyr diwydiant a Siambrau Masnach, yn cael ei chynnwys er mwyn ystyried yr effaith ar ddatblygu economaidd a seilwaith.

Sefydliadau Amgylcheddol

- 5.19 Bydd ymgysylltu â CNC a grwpiau amgylcheddol yn sicrhau bod y CDS yn cyd-fynd â nodau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, bioamrywiaeth, a gweithredu ar yr hinsawdd.

Partneriaid Trafnidiaeth a Seilwaith

- 5.20 Cydweithio â Thrafnidiaeth Cymru a darparwyr seilwaith i integreiddio defnydd tir a chynllunio trafndiaeth gynaliadwy.

Y Sectorau Iechyd ac Addysg

- 5.21 Bydd cydweithio â byrddau iechyd, ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio'n unol â thwf i'r dyfodol ac anghenion cymunedol.

Pobl Ifanc a Chenedlaethau'r Dyfodol

- 5.22 Bydd sefydliadau ieuenctid, ysgolion, a phlatformau eraill yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu cynnwys, gan ganolbwyntio ar effaith hirdymor y cynllun.

Y Sector Tai a Datblygu

- 5.23 Bydd ymgysylltu â chymdeithasau tai, datblygwyr a pherchnogion tir yn allweddol i drafod anghenion tai a dyrannu tir i'r dyfodol. Bydd angen tir a buddsoddiad i ymateb i nodau ac amcanion y CDS. Gall tiffeddianwyr, asiantau a datblygwyr sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o'r broses hon wneud cais am gael eu hychwanegu at gronfa ddata ymgynghori'r CDS.
- 5.24 Bydd proses y Lleoliadau a'r Safleoedd Ymgeisiol Strategol yn rhoi cyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn tir gyflwyno safleoedd a lleoliadau i'w hystyried ar gyfer datblygu.



Cynhelir Galwad am Leoliadau a Safleoedd Ymgeisiol Strategol, a bydd angen cyflwyno pob cynnig ar ffurflen safonol. Bydd y ffurflen yn cynnwys y meini prawf gofynnol er mwyn helpu i asesu addasrwydd safleoedd a lleoliadau i'w cynnwys fel dyraniadau posibl yn y CDS.

- 5.25 Pennir trothwy ar gyfer derbyn Lleoliadau a Safleoedd Ymgeisiol Strategol er mwyn sicrhau bod ffocws strategol parhaus i'r cynllun. Nodir y trothwy hwn o'r cychwyn er mwyn sicrhau eglurder y broses ac osgoi gwneud gwaith diangen ar gyfer safleoedd fydd yn cael eu gwrthod ar unwaith. Bydd diffinio trothwyon priodol, pennu paramedrau cyffredinol o ran lleoliad/cyfyngiadau, yn ogystal â sicrhau bod ystod eang o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi i lywio'r broses hon, yn rhoi arweiniad pwysig i hyrwyddwyr safleoedd ynghylch maint, cwantwm a math y safleoedd a ddyrannir/gynigir neu a ddiogelir yn y CDS. Anogir pob rhanddeiliad yn gryf i ymgyfarwyddo â'r Llawlyfr CDS er mwyn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses yn llawn. Bydd hynny'n sicrhau cyfranogiad effeithiol ac ymlyniad wrth y canllawiau sefydledig.

Cyrff Ymgynghori Penodol

- 5.26 Mae'r Cyrff Ymgynghori Penodol, fel y'u diffinnir gan Reoliad 6 CDSiau, yn cwmpasu endidau statudol megis:
- Llywodraeth Cymru
 - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
 - Dŵr Cymru
 - Cwmnïau Cyfleustodau (Cymru a Lloegr)
 - Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru
 - Cyd-bwyllgorau Corfforedig Cyfagos (CBCau)
 - Byrddau Iechyd Lleol o fewn neu yn ymyl ardal y CBC
 - Pob Cyngor Tref a Chymuned o fewn neu yn ymyl ardal y CBC
 - Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) o fewn ac yn ymyl ardal y CBC (Bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) yn defnyddio'u rhwydweithiau cyfathrebu presennol i sicrhau bod cynghorwyr unigol yn cael eu hysbysu'n briodol).
 - Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig os yw'r CDS yn debygol o effeithio ar eu buddiannau. Bydd y cyrff hyn yn cael eu cynnwys yn ffurfiol yn ystod y broses.
- 5.27 Mae'r Cyrff Ymgynghori Cyffredinol, fel y'u diffinnir gan Reoliad 5 CDSiau, yn cynnwys:
- cyrff gwirfoddol, y mae rhai neu'r cyfan o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal y CBC,
 - cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol

mewn unrhyw ran o ardal y CBC,

- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol mewn unrhyw ran o ardal y CBC,
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl, oddi mewn i ystyr adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(1), mewn unrhyw ran o ardal y CBC,
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n cynnal busnes mewn unrhyw ran o ardal y CBC, a
- chyrrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru mewn unrhyw ran o ardal y CBC.

5.28 Mae'r defnydd o grwpiau trosfwaol fel yr amlinellir uchod yn hanfodol i gyrraedd trawsdoriad mor eang o'r gymuned â phosibl. Gallai mwy o ddefnydd o rwydweithiau helpu i gyrraedd grwpiau llai hygyrch, gan gynnwys rhai o darddiad hil neu ethnig gwahanol.

5.29 Mae **Atodiad 3** yn cynnwys rhestr arfaethedig o gyrrff ymgynghori cyffredinol ychwanegol.

5.30 Bydd y dull gweithredu cynhwysol, cydweithredol hwn yn sicrhau bod y CDS yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r holl randdeiliaid, gan gefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ymgysylltu â Grwpiau Anodd eu Cyrraedd fel rhan o Broses y CDS

5.31 Grwpiau anodd eu cyrraedd yw rhannau o gymdeithas sydd yn hanesyddol wedi'u tangynrychioli yn y broses o baratoi'r cynllun. Mae ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn galw am ymdrech ychwanegol i sicrhau eu bod yn ymwneud â phroses y CDS. Mae angen ymdrin yn hyblyg ag ymgysylltu, ond rhaid i hynny ddigwydd oddi mewn i'r cyfnodau cyfranogiad ac ymgynghori penodedig.

5.32 Er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau anodd eu cyrraedd yn ystod proses y CDS, bydd y CBC yn gwneud defnydd o asiantaethau a grwpiau sydd eisoes yn bodoli, fel y BGCau, lle bynnag y bo modd. Ar ben hynny, gellir defnyddio canolwyr yr ymddiriedir ynddyn nhw i gasglu barn y rhai sydd heb hyder i ymwneud yn uniongyrchol â phroses y CDS. Nodwyd y grwpiau canlynol fel rhai na fuont yn ymgysylltu'n ddigonol â pharatoadau cynlluniau blaenorol, ac fe'u hanogir yn benodol i gyfranogi:

- Pobl ifanc a phlant
- Pobl ag anableddau
- Pobl hŷn

- Pobl ag anawsterau dysgu
- Pobl ddigartref
- Lleiafrifoedd ethnig
- Sipsiwn a Theithwyr

Sut bydd y CBC yn ymwneud â chi

- 5.33 Bydd gwybodaeth am broses y CDS yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ar wefan y CBC. Bydd copïau o'r dogfennau perthnasol sy'n gysylltiedig â phroses y CDS hefyd yn cael eu darparu ym Mhrif Swyddfa'r CBC ac ym mhob un o Brif Swyddfeydd Llywodraeth Leol yn Ne-orllewin Cymru fel y rhestrir yn **Atodiad 4**.

Technoleg Ddigidol ar gyfer Ymgysylltu a Lledaenu Gwybodaeth

- 5.34 Mae pandemig Covid-19 wedi pwysleisio rôl gritigol technoleg ddigidol yn cynnal cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltiad â phartneriaid. Yn ystod y cyfnod hwn, mae sefydliadau wedi dibynnu'n gynyddol ar atebion digidol arloesol. O ganlyniad, agwedd gyffredinol y CBC ar hyd proses y CDS fydd rhoi blaenoriaeth i gyfathrebu electronig ac ymgysylltu rhithwir.

Rhoi Sylw i Eithrio Digidol

- 5.35 Gan gydnabod nad oes gan bawb fynediad i'r rhyngwrwyd, mae'r CBC wedi ymrwymo i sicrhau cynwysoldeb yn ei broses ymgysylltu. Yn achos unigolion sydd heb fynediad i'r rhyngwrwyd:
- Bydd copïau papur o ddogfennau yn cael eu darparu mewn lleoliadau penodol.
 - Bydd ffurflenni sylwadau papur yn cael eu darparu ar gais.

Sicrhau Ymgynghori Clir a Hygyrch

- 5.36 Mae'r CBC yn ymroddedig i wneud pob cam o'r broses ymgynghori mor glir a hygyrch â phosibl. I hwyluso hynny:
- Bydd swyddogion ar gael (trwy apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw) i ddelio ag ymholiadau sy'n ymwneud â'r CDS ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod oriau arferol y swyddfa.
 - Mae modd cyfeirio ymholiadau at y CBC trwy eu cyfeiriad ar y we neu i Brif Swyddfa'r CBC.
- 5.37 Trwy wneud defnydd o dechnolegau digidol a darparu dulliau mynediad amgen, nod y CBC yw meithrin ymgysylltiad cynhwysfawr a chynhwysol ar hyd proses y CDS.

Rhoi Cyhoeddusrwydd i Broses y CDS

5.38 Mae'r CBC wedi ymrwymo i sicrhau ymwybyddiaeth gyffredinol ac ymgysylltiad gweithredol ar hyd proses y CDS. Dyma'r camau i gyflawni hynny:

- **Cyswilt Uniongyrchol:** Bydd y CBC yn cyfathrebu'n uniongyrchol â phartïon sydd â diddordeb, yn bennaf trwy e-bost neu lythyron, yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl y galw.
- **Cyfryngau Cymdeithasol:** Defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol y CBC, lle bo hynny'n briodol, i rannu'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth.
- **Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig:** Cynnal gweithdai â ffocws, briffiadau, a sesiynau galw heibio, ac adrodd i gyfarfodydd CBC perthnasol.
- **Datganiadau i'r Wasg:** Cyflwyno datganiadau i'r wasg i'r cyfryngau lleol fel sy'n briodol er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach.
- **Dogfennau Llawn Gwybodaeth:** Creu fersiynau darllen hwylus neu grynodedbau i hwyluso dealltwriaeth o'r cyfnodau allweddol.
- **Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd:** Trefnu arddangosfeydd i'r cyhoedd, sesiynau galw heibio, neu arddangosfeydd rhithwir.
- **Ymgynghori ac Ymgysylltu Rhithwir:** Defnyddio technoleg ar y we megis gweminarau i ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

Darparu Cyfleoedd i Ymwneud â'r Cynllun

5.39 Nod y CBC yw cynnig cyfleoedd niferus i randdeiliaid a phartïon â diddordeb gyrchu gwybodaeth a chyfranogi ym mhroses y CDS. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau, rhaid i gwmpas yr ymgysylltu fod yn gytbwys. Dyma rai o'r prif ystyriaethau:

- **Triniaeth Deg a Chyfartal:** Sicrhau bod pob ymgynghorai yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.
- **Cyfyngiadau ar Adnoddau:** Cydnabod terfynau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu.
- **Argaeledd Swyddogion:** Ni fydd swyddogion yn mynd i gyfarfodydd a drefnir gan grwpiau unigol, ond byddant ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol ar hyd proses y CDS i ddarparu gwybodaeth neu gymorth yn ôl yr angen.

Cronfa Ddata o Ymgynghoreion y CDS

5.40 Creir 'Cronfa Ddata o Ymgynghoreion y CDS' i gynnwys aelodau o'r cyhoedd, unigolion â diddordeb, ac unrhyw sefydliadau sydd wedi gofyn am dderbyn gwybodaeth yn ystod pob cyfnod o broses y CDS. Prif nod y gronfa ddata hon yw sicrhau bod y rhai nad ydynt yn rhan o restr swyddogol Llywodraeth Cymru o ymgynghoreion ar gyfer Cynlluniau CDS yn

dal i gael eu cynnwys a'u diweddarau ar hyd y broses. O 25 Mai 2018 ymlaen, mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn pennu cyfyngiadau newydd gorfodol o ran sut gall sefydliadau storio a defnyddio data personol, gan ddiffinio hawliau unigolion ynghylch eu data yn ogystal. Bydd GDPR yn berthnasol i'r Gronfa Ddata o Ymgylgoreion y CDS, ac o ganlyniad, rhaid i aelodau o'r cyhoedd roi caniatâd ysgrifenedig i gael eu hychwanegu at gronfa ddata'r CDS.

Ychwanegu Manylion at Gronfa Ddata'r CDS

- 5.41 Gall unrhyw un sy'n dymuno cael ei ychwanegu at gronfa ddata'r CDS wneud hynny trwy gysylltu â Thîm y CDS, naill ai drwy e-bost neu yn ysgrifenedig.

Dyrannu Rhifau Cynrychiolwyr

- 5.42 Dyrannir rhif cynrychiolydd unigryw i bob person (cynrychiolydd) a ychwanegir at y gronfa ddata, a bydd y rhif hwnnw'n parhau yr un fath ar hyd holl gyfnodau paratoi'r CDS, er cysondeb. Defnyddir y rhif hwn i gyfeirio at unrhyw gynrychiolaethau a wneir yn ystod y cyfnodau ymgynghori.

Diweddarau Manylion Cyswllt

- 5.43 Cyfrifoldeb pob cynrychiolydd yw hysbysu'r CBC os bydd eu manylion cyswllt yn newid yn ystod proses y CDS. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob cynrychiolydd yn derbyn gwybodaeth lawn am gynnydd yn gyson. Yn yr un modd, yn achos Lleoliadau a Safleoedd Ymgeisiol Strategol, rhaid rhoi gwybod i'r CBC am unrhyw newidiadau i berchnogaeth tir er mwyn atal unrhyw oedi yn y broses.

Meithrin Consensws

- 5.44 Mae'r CBC wedi ymrwymo i feithrin consensws trwy amrywiol ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori, fel yr amlinellir yn y CCG. Mae cyflawni consensws yn golygu bod angen darparu gwybodaeth lawn i'r gymuned a phartion eraill â diddordeb, a chynnal ymgysylltiad effeithiol â nhw, yn enwedig yng nghyfnodau cynnar y gwaith o baratoi'r CDS. Mae'r CBC yn cydnabod y bydd adegau pan na ellir cyrraedd consensws, gan arwain at wahaniaethau barn.
- 5.45 Er mwyn sicrhau tryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau, bydd y CBC yn cynnal trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad. Bydd hynny'n rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n anghytuno, gan ddangos bod penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn. Ymhellach, bydd y CBC yn ystyried yn ofalus yr holl dystiolaeth ategol a ddarperir gan

gynrychiolwyr a rhanddeiliaid, ochr yn ochr â sylfaen o dystiolaeth y CDS, i gefnogi amrywiol safbwyntiau.

5.46 I grynhoi, mae dull y CBC o feithrin consensws yn golygu:

- Rhoi gwybodaeth lawn ac ymgysylltu'n llawn â'r holl randdeiliaid o'r cychwyn.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori yn unol â'r CCG.
- Cynnal tryloywder trwy drywydd archwilio clir ar gyfer penderfyniadau.
- Ystyried yr holl dystiolaeth a phob safbwynt yn drylwyr.

5.47 Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau, hyd yn oed os na cheir cytundeb unfrydol, bod y broses yn parhau'n deg, yn dryloyw, ac wedi'i seilio ar dystiolaeth.

Rheoli Cynrychiolaethau

5.48 Bydd cynrychiolaethau a ddaw i law o fewn y terfynau amser penodedig yn derbyn sylw fel a ganlyn:

- Cydnabyddiaeth trwy e-bost (neu lythyr lle bydd angen), yn darparu manylion cyswllt ac yn nodi sut bydd y CBC yn delio â'r gynrychiolaeth.
- Manylion y camau nesaf yn y broses o baratoi'r CDS.
- Ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r cynrychiolaethau a gofnodwyd ac a gyhoeddwyd, yn unol â'r Rheoliadau CDS.

5.49 Defnyddir gwefan y CBC i ddarparu'r wybodaeth a'r newyddion diweddaraf am gynnydd y CDS. Ym mhob cyfnod allweddol, adroddir ar ymatebion ymgynghori i'r CBC.

5.50 Bydd deisebau a ddaw i law yn ystod cyfnodau ymgynghori ar y CDS yn cael eu cydnabod a'u cofrestru fel cynrychiolaethau dilys. Rhaid i bob deiseb enwebu cyflwynydd unigol. Anfonir cydnabyddiaeth drwy e-bost neu lythyr at gyflwynydd y ddeiseb, a fydd yn bwynt cyswllt ac â hawl i gael gwrandawriad mewn unrhyw Archwiliad yn y dyfodol, yn amodol ar gytundeb yr Arolygydd (PEDW). Nid yw hyn yn cyfyngu ar hawl unigolion sy'n llofnodi'r ddeiseb i gyflwyno cynrychiolaethau ffurfiol ar wahân ar y CDS.

Cynrychiolaethau Hwyr

5.51 Mae'r broses o baratoi'r CDS yn destun cyfnodau ymgynghori statudol ac anstatudol sydd â chyfnodau diffiniedig ar gyfer cyflwyno sylwadau. Er mwyn sicrhau tegwch a chydaddoldeb i bawb, bernir bod unrhyw sylwadau/gynrychiolaethau a dderbynnir wedi i'r cyfnod ymgynghori rhagnodedig ddod i ben yn rhai 'na wnaed yn briodol', ac ni fyddant yn destun ystyriaeth bellach. Cytunwyd ar yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDS gan

Llywodraeth Cymru, a gallai derbyn cynrychiolaethau hwyr arwain at oedi na fyddai'n dderbyniol.

- 5.52 Dim ond os bydd y CBC wedi'i fodloni bod ymgais ddilys i gyflwyno sylwadau o fewn y terfynau amser a roddwyd wedi digwydd, y bydd cynrychiolaeth hwyr yn cael ei nodi fel un a wnaed yn briodol. Bydd angen tystiolaeth o ddosbarthu, postio etc. i gefnogi honiadau o'r fath. Mae disgwyl i amgylchiadau felly fod yn eithriadol, a chynghorir pawb sydd am gyflwyno sylwadau wneud hynny (gyflwyno'u cynrychiolaethau) o fewn y cyfnodau ymgynghori a hysbysebwyd.

Argaeledd Dogfennau

- 5.53 Bydd dogfennau'r CDS a'r ffurflenni sylwadau ar gael yn electronig adeg cyfnodau perthnasol y broses baratoi ar wefan y CBC, sef: [Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru – Cyngor Castell-nedd Port Talbot](#)
- 5.54 Bydd copïau cyfeiriadol hefyd ar gael yn y lleoliadau canlynol:
- Prif Swyddfa'r CBC: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ
 - Prif Swyddfeydd Llywodraeth Leol (Atodiad 4)
- 5.55 Lle bo gofyn, anfonir copïau papur o ddogfennau at gyrrff Ymgynghori Penodol. Fodd bynnag, nid anfonir copïau papur o ddogfennau allan fel rheol yn ystod proses y CDS, gan y byddant ar gael i'r cyhoedd yn y lleoliadau a restrir uchod, yn ogystal â bod ar gael yn electronig ar wefan y CBC. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir cynnig copïau papur. Fodd bynnag, asesir hynny fesul achos, yn dibynnu ar anghenion penodol yr unigolyn neu'r rhanddeiliad dan sylw.
- 5.56 Atodir crynodeb o ymwneud rhanddeiliaid â chyfnodau allweddol y CDS yn **Atodiad 2**.

6. Yr Amserlen

6.1 Mae'r amserlen yn cyflwyno manylion cynhwysfawr ar gyfer paratoi'r CDS, gydag amserlenni a cherrig milltir clir ar gyfer cyfnodau allweddol y broses. Mae'r amserlen wedi'i strwythuro'n ddwy brif ran:

Cyfnodau Pendant:

- Mae hyn yn cwmpasu pob cyfnod hyd at a chan gynnwys y cyfnod Adnau statudol.
- Mae cynnydd y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn ystod y cyfnodau hyn o dan reolaeth uniongyrchol y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).
- Bernir bod dyddiadau targed y cyfnodau hyn yn realistig, a gwneir pob ymdrech i gadw atynt.

Cyfnodau Dangosol:

- Mae hyn yn cwmpasu cyfnodau paratoi'r cynllun y tu hwnt i'r cyfnod Adnau statudol.
- Mae cynnydd yn y cyfnodau hyn yn dibynnu ar amrywiol ffactorau allanol (e.e. nifer y cynrychiolaethau a ddaeth i law, nifer y sesiynau gwrandawriad archwilio, faint o amser y bu'n rhaid aros i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd), nad oes gan y CBC ond rheolaeth gyfyngedig arnynt.
- Gellir ailystyried dyddiadau'r cyfnodau hyn ar ôl cyrraedd y cyfnod Adnau. Bryd hynny, paratoi'r amseriadau pendant ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill, a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru gytuno arnynt a'u cyhoeddi.

6.2 Mae **Atodiad 5** yn cynnwys amserlen fanwl ar gyfer y rhaglen, sy'n amlinellu amserlen benodol ar gyfer pob cyfnod o baratoi'r cynllun. Mae'n nodi'n fanwl y tasgau sydd i'w cwblhau, o'r casglu data cychwynnol i fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn derfynol. I gyd-fynd â phob carreg filltir yn yr amserlen mae terfynau amser clir ac amcan o hyd y dasg, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y broses. Mae'r atodiad yn gyfeirnod i randdeiliaid olrhain cynnydd ac alinio'u hymwneud â phwyntiau allweddol.

6.3 Tabl 1: Crynodeb o Amserlen y CDS: Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cyfnodau allweddol a'r cerrig milltir o'r amserlen fanwl a amlinellir yn **Atodiad 5**.



Cyfnod Allweddol		Terfynau Amser	
Terfynol			
Cyfnod 1	Paratoi a Chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni	Rheoliadau CDS 7-12	Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo erbyn Mawrth 2026.
Cyfnod 2	Paratoi'r Cynllun Cyn-Adnau ac ymwneud ag ef	Rheoliad CDS 16 (1) – (a-d)	Ebrill 2026- Rhagfyr 2028
Cyfnod 3	Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffafir (6 wythnos)	Rheoliadau CDS 17 - 19	Mehefin - Gorffennaf 2028
Cyfnod 4	Paratoi'r Cynllun Adnau ac ymgynghoriad cyhoeddus	Rheoliadau CDS 20 - 22	Rhagfyr 2028- Hydref 2029 (Ymgynghoriad Cyhoeddus: Tachwedd-Rhagfyr 2029)
Cyfnod 5	Cyflwyno i PEDW a Llywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus	Rheoliad CDS 23	Rhagfyr 2030
Dangosol			
Cyfnod 6	Archwiliad	Rheoliad CDS 24	Mai 2031 – Mehefin 2031
Cyfnod 7	Adroddiad yr Arolygydd	Rheoliad CDS 25	Hydref 2031 – Tachwedd 2031
Cyfnod 8	Mabwysiadu	Rheoliad CDS 35	Rhagfyr 2031

Asesiad Risg

- 6.4 Yn unol â gofynion y Llawlyfr CDS, rhaid cwblhau CDSiau o fewn pum mlynedd wedi cytuno'n ffurfiol ar y CC. Mae darpariaeth ar gyfer un cyfnod llithro ychwanegol o dri mis, gan ddarparu hyblygrwydd cyfyngedig os bydd angen. Bydd unrhyw wyro pellach oddi wrth yr amserlen yn golygu bod rhaid diwygio'r CC yn ffurfiol, a dylid ystyried hynny o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae'r CBC wedi nodi meysydd risg penodol a allai arwain at wyro oddi wrth yr amserlen. Manylir ar y risgiau hynny, ynghyd ag adnoddau a gynnigir er mwyn eu rheoli, yn **Atodiad 6**.

7. Cyllideb y Rhaglen a'r Strategaeth o ran Darparu Adnoddau

7.1 Er mwyn sicrhau bod amserlen y CDS yn cael ei gweithredu'n effeithiol, bydd y CBC yn dyrannu lefel briodol o adnoddau cyllideb a staff. Adlewyrchir y dyraniad hwn trwy ymgorffori'r gofyniad i baratoi CDS yn y Cynllun Corfforaethol diwygiedig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Cyllideb Rhaglen y CDS

7.2 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r costau a ragwelir yng nghyswllt paratoi'r CDS, ar sail asesiad a gynhaliwyd gan Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG).

7.3 Mae'r amcangyfrif costau hwn yn tanlinellu'r ymrwymiad ariannol sy'n ofynnol i gyflawni'r CDS, gyda'r prif wariant yn cael ei ddyrannu'n bennaf er mwyn paratoi'r sylfaen o dystiolaeth a staffio. Bydd rheoli'r strategaeth ariannu a chyfyngiadau cyllidebol yn allweddol i sicrhau cyflawni'r cynllun yn llwyddiannus. Er na ellir pennu cost fanwl gywir ar hyn o bryd, mae'r ystod gyllidebol a ddarparwyd yn cynnig rhagolwg dibynadwy. Yn y pen draw bydd y gyllideb derfynol yn dibynnu ar ffactorau amrywiol megis maint y tîm ac i ba raddau mae'r sylfaen o dystiolaeth yn cael ei datblygu'n fewnol, yn hytrach na'i chomisiynu gan ymgynghorwyr allanol.

Costau Sylfaenol	Amcangyfrif o'r Costau
Paratoi'r sylfaen o dystiolaeth	Tua £834,750
Archwiliad cyhoeddus	Tua £262,500
Cronfa ddata ymgynghori	£31,500
Cyfarpar swyddfa gefn a gwefan	£66,150
Cyfieithu ac argraffu	£110,250
Adnoddau staff (tîm craidd)	£1,973,215
Cyfanswm y costau a ragwelir wrth baratoi'r CDS dros gyfnod o 5-mllynedd	£3,278,365

Strategaeth Darparu Adnoddau

7.4 Nod y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) fydd recriwtio'r bobl gywir sydd â'r sgiliau cywir i'r rolau cywir ar yr adeg gywir. Mae'n hanfodol sefydlu tîm rhanbarthol annibynnol er mwyn sicrhau bod adnoddau staff digonol yn eu lle er mwyn paratoi a chyflawni'r CDS. Wedi dweud hynny, cronfa gyfyngedig o weithwyr cynllunio profiadol sydd ar gael, ac mae'r CBC

yn arbennig o awyddus i osgoi recriwtio staff o Awdurdodau Cynllunio Lleol o fewn y rhanbarth a allai adael y timau Cynllun Lleol dan sylw mewn sefyllfa anodd eu hunain o ran adnoddau.

7.5 Isod nodir y rolau craidd a gynigir ar gyfer y tîm cynllunio rhanbarthol:

- Prif Swyddog/Pennaeth Tîm y CDS
- Prif Gynllunydd Rhanbarthol x1
- Uwch Gynllunydd Rhanbarthol x3
- Swyddog Cymorth Technegol x1

7.6 Mae'r gallu i roi'r tîm uchod, neu adnoddau tebyg, ar waith o fewn y CBC yn dibynnu ar adnoddau ariannol digonol i fedru recriwtio tîm o'r fath. Er gwaethaf y strwythur hwn, a ddatblygwyd fel rhan o'r asesiad cychwynnol o anghenion adnoddau a gynhaliwyd gan swyddogion cynllunio Gogledd Cymru, ac sy'n cyfateb i'r rhai sy'n dod i'r amlwg mewn CBCau eraill, mae'r gyllideb a bennwyd ar gyfer y CDS gan CBC yn ddigonol i dalu am ddechrau'r CDS a dyrannwyd digon o gyllid i dalu am anghenion y cynllun ym mlwyddyn 1 o'r rhaglen. Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer gwaith CDS yng nghyfarfod y CBC a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2026. Ymhlyg yn y penderfyniad hwn mae cydnabyddiaeth bod y CBC wedi ymrwymo i broses gyfan y cynllun, fel yr amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni.

7.7 Bydd cyllid er mwyn datblygu'r CDS yn rhan o Gynllunio Ariannol Tymor Canolig De-orllewin Cymru. Mae'n bwysig nodi, ar yr adeg hon, y bydd CBC De-orllewin Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod sylfaen gadarn o adnoddau yn ei lle, ac y bydd yn mapio'r cyllid sy'n angenrheidiol ar gyfer y CDS ar draws holl amserlen ei gynhyrchu. Bydd hynny yn ei dro yn cyfrannu at y broses flynyddol o bennu cyllideb y tu hwnt i 2026/27.

7.8 Bydd Prif Swyddog Gweithredol newydd i CBCDoC yn cychwyn yn ei swydd ar 9 Mawrth 2026. O ganlyniad, ni fydd y broses recriwtio ar gyfer tîm y CDS yn gallu cychwyn tan hynny. Bydd y Prif Swyddog Cynllunio Rhanbarthol yn parhau yn ei swydd ar secondiad hyd nes bod y broses recriwtio ar gyfer tîm y CDS yn cychwyn yn ffurfiol. Mae eu gwaith nhw wedi cynnwys:

7.9

- Paratoi a chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni.

Bydd gwaith tîm y CDS yn y dyfodol yn cynnwys:

- Adolygu cynnwys a sylfeini tystiolaeth Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlïau) sydd eisoes yn bodoli a CDLlïau sy'n dod i'r amlwg yn y rhanbarth.
- Sefydlu gwaelodlinau.
- Pennu fframwaith ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) a'r Asesiad

- Cynnal ymgynghoriadau wedi'u targedu ar Adroddiad Rychwantu drafft yr AC.
- Cychwyn y broses recriwtio ar gyfer tîm y CDS.

Secondiadau

- 7.10 Ar hyd proses y CDS, gellir defnyddio secondiadau yn ddull cost-ffeithiol o gaffael gwybodaeth a sgiliau arbenigol, yn ogystal â gwneud y tîm craidd yn fwy cydnerth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai awdurdodau lleol yn Ne-orllewin Cymru gael bod symud ymlaen â'u Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) eu hunain yn heriol os caiff gweithwyr o'u timau presennol eu recriwtio ar secondiad. I liniaru'r broblem bosibl hon, bydd pob secondiad yn cael ei gynllunio'n ofalus i sicrhau cyn lleied â phosibl o amharu ar brosesau'r CDLI sy'n parhau. **(ni fydd secondiadau'n cael eu hystyried ond lle mae galwadau'r llwyth gwaith presennol yn caniatáu'r trefniant hwnnw).**

Adnoddau a Rennir a Rhaglen Hyfforddi i Raddedigion

- 7.11 Yn ogystal â'r darpariaethau sydd eisoes yn bodoli, mae cyfle i wella cydweithio ac effeithlonrwydd adnoddau trwy rannu adnoddau gweinyddol a Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS) rhwng timau'r CTRh a'r CDS.
- 7.12 Ymhellach, mae'r CBC yn cynnig cyflwyno rhaglen hyfforddi strwythuredig i raddedigion. Bydd y fenter hon yn cyflawni sawl diben:
- **Profiad Ymarferol:** Bydd graddedigion diweddar yn cael cyfle i gaffael profiad ymarferol ym meysydd trafndiaeth ranbarthol a chynllunio defnydd tir.
 - **Datblygu Sgiliau:** Bydd y rhaglen yn cynnig cyfleoedd mentora a hyfforddi, fel bod cyfle i raddedigion ehangu eu setiau sgiliau.
 - **Cynllunio Olyniaeth:** Trwy fuddsoddi yn nhwf proffesiynol graddedigion, byddwn ni'n meithrin y genhedlaeth nesaf o gynllunwyr trafndiaeth ranbarthol a defnydd tir, gan sicrhau gweithlu cynaliadwy a gwybodus i'r dyfodol.
- 7.13 Mae'r dull integredig hwn o rannu adnoddau a datblygu'r gweithlu yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i gynllunio cynaliadwy a defnydd effeithlon o adnoddau.



Atodiad 2 – Dogfennau Allweddol ac Aseidiadau'r Sylfaen o Dystiolaeth

Dogfen Ategol	Diben	Dull Cyflawni
Dogfennau Allweddol		
Cytundeb Cyflawni'r CDS (CC) sy'n ymgorffori'r Datganiad o Ymwneud y Gymuned (SCI)	Mae'r CC yn nodi sut a phryd gall rhanddeiliaid a'r gymuned ddod yn rhan o'r broses o baratoi'r cynllun. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer ei baratoi, gan nodi amserlenni clir a cherrig milltir ar gyfer cyfnodau allweddol y broses.	Paratowyd gan swyddogion y CBC
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n ymgorffori Adroddiad Rychwantu Aseiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)	Amlinellu'r dull arfaethedig o lunio'r ACI, gan ymgorffori'r AAS. Yr adroddiad hwn yw cam cyntaf proses AC a fydd yn nodi, yn asesu ac yn rhoi sylw i unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd yn sgîl y CDS sy'n dod i'r amlwg.	Ymgynghorwyr allanol
Adroddiad Cychwynnol Adroddiad Rychwantu'r ACI/AC/AAS	Nodi, ar sail aseiad o ddewisiadau amgen rhesymol, a fydd y CDS yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, a phenderfynu a fydd y Cynllun yn cyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r Adroddiad Cychwynnol yn cynnwys aseiad cymesur o safleoedd ymgeisiol. Ymgynghorir ar Adroddiadau Asesu'r ACI a'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â'r CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Nodi ac asesu'r weledigaeth, y materion sy'n codi a'r amcanion. Opsiynau Twf a Strategaeth.	Bydd y gwaith hwn yn ystyriaeth gynnar o'r strategaeth ofodol a thwf bosibl y mae'r rhanbarth am ei chyflawni, h.y. ble/beth yw'r strategaeth ofodol fwyaf cynaliadwy ar gyfer y rhanbarth, a sut mae hynny'n cyd-fynd â gweledigaeth gyffredinol.	Paratowyd gan swyddogion y CBC
Strategaeth a Ffafrir y CDS	Nodi math a graddfa'r newid gofodol sy'n ofynnol i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDS.	Paratowyd gan swyddogion y CBC
ACI Llawn y Strategaeth a Ffafrir	Nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n debygol o fod yn sylweddol yn sgîl y CDS, ac awgrymu mesurau lliniaru perthnasol.	Ymgynghorwyr allanol



<p>Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cychwynnol ar y Strategaeth a Ffafir</p>	<p>Amlinellu sut mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) wedi sicrhau cyfranogiad ac ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffafir, yn unol â Rheoliad CDS 16a. Bydd yr Adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd i roi cyhoedduswydd i baratoi'r cynllun, gan grynhoi'r prif faterion a godwyd, a nodi sut mae'r ymatebion wedi derbyn sylw, neu sut bydd hynny'n digwydd. Mae'r Adroddiad yn darparu manylion sylweddol am sut bu i'r cyfnod ymgynghori allweddol hwn ddylanwadu ar ddatblygu'r CDS Adnau.</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>
<p>Y Cynllun Adnau</p>	<p>Y Cynllun Adnau yw'r cynllun mae'r CBC yn barnu ei fod yn 'gadarn', yn bwriadu ei gyflwyno i'w archwilio yn dilyn ymgynghori, ac y mae modd ei fabwysiadu. Rhaid ymgynghori ar y Cynllun Adnau am gyfnod o 6 wythnos o leiaf.</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>
<p>ACI Llawn y Cynllun Adnau a'r Crynodeb Annhechnegol</p>	<p>Nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i'r CDS, ac awgrymu mesurau lliniaru perthnasol. Mae'r broses hon yn integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd i bob rhan o baratoi'r CDS ac yn hybu datblygu cynaliadwy.</p>	<p>Ymgynghorwyr allanol</p>
<p>Yr Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun Adnau</p>	<p>Cofnodi'n fanwl sut mae'r CBC wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ar y Cynllun Adnau. Bydd yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd ar hyd y broses, gan gynnwys y sylwadau a wnaed, a dylid rhoi sylw i argymhellion ynghylch sut mae'r CBC yn ystyried pob cynrychiolaeth. Mae'n cynrychioli rhagelfen allweddol cyn cyflwyno'r CDS yn unol â'r CC.</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>
<p>Profion Cadernid (2022)</p>	<p>Asesu sut a pham mae'r CBC o'r farn bod y Cynllun wedi bodloni'r Profion Cadernid a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Paratowyd gan y CBC yn fewnol.</p>



<p>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd</p>	<p>Mae Rheoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn gofyn bod rhaid cynnal ARhC i ddangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau statudol a nodir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau Cynefinoedd, lle bernir bod cynllun neu brosiect yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd, os nad oes ganddo gysylltiad uniongyrchol, ac os nad yw chwaith yn angenrheidiol i reoli'r safle. Diben y ddogfen yw cofnodi cyfnod cyntaf ffurfiol y broses ARhC hon, sef canfod a fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd perthnasol yn sgîl y CDS.</p>	<p>Ymgynghorwyr allanol</p>
<p>Asesiadau o'r Sylfaen o Dystiolaeth</p>		
<p>Ardal Chwilio Strategol a Chofrestr Safleoedd Ymgeisiol</p>	<p>Cofnod o'r safleoedd a gyflwynwyd gan dirfeddianwyr, datblygwyr a'r cyhoedd, a ddefnyddir yn gyfeirbwynt i asesu pob safle yn erbyn y Strategaeth a Ffafir, er mwyn eu cynnwys o bosibl yn y CDS.</p> <p>[Bydd y CBC yn nodi trothwy/meini prawf maint/capaciti penodol ar gyfer y CDS.]</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>
<p>Adroddiad Asesu Ardal Chwilio Strategol a Safleoedd Ymgeisiol (SSCSA)</p>	<p>Cefnogir y CDS gan Asesiad o'r Ardal Chwilio Strategol a'r Safleoedd Ymgeisiol, fydd yn nodi'r safleoedd posibl addas i'w dyrannu o fewn y CDS.</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>
<p>Asesiad o Sylfaen RhDoC o Dystiolaeth Economaidd (EEBA)</p>	<p>Darparu argymhellion seiliedig ar dystiolaeth ynghylch graddfa a dosbarthiad anghenion cyflogaeth a'r tir sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu'r angen hwnnw, ochr yn ochr â llunio argymhellion polisi/dyrannu tir i lywio polisïau sy'n dod i'r amlwg a dyraniadau safle.</p>	<p>Ymgynghorwyr allanol</p>
<p>Asesiad Anghenion Manwerthu DoC (RRA)</p>	<p>Cyflwyno argymhellion seiliedig ar dystiolaeth ynghylch anghenion manwerthu, dosbarthiad, a'r angen am lywio polisïau sy'n dod i'r amlwg a dyraniadau safle strategol (ar raddfa ranbarthol).</p>	<p>Ymgynghorwyr allanol</p>
<p>Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy DoC (RSA)</p>	<p>Sefydlu hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n gallu llywio'r CDS. Bydd hyn yn nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygu yn y dyfodol er mwyn cyflawni patrwm cynaliadwy o dwf, lleiafu patrymau symud anghynaliadwy, hybu datblygu sy'n troi o gwmpas symudiadau, a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol.</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>



<p>Asesiad o Ddadansoddiad Demograffig a Rhagolygon DoC (DAFA)</p>	<p>Darparu crynodeb o'r dystiolaeth ddemograffig, gan gynnwys cyfres o ddeilliannau poblogaeth, tai, a thwf economaidd i lywio'r papur Opsiynau Twf Strategol i'w ystyried wrth baratoi'r CDS.</p>	<p>Ymgynghorwyr allanol</p>
<p>Asesiad Seilwaith Gwyrdd DoC (GIA)</p>	<p>Darparu dadansoddiad gofodol cyfannol o seilwaith gwyrdd ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>
<p>Dadansoddiad o Gyfradd Adeiladu DoC</p>	<p>Darparu dadansoddiad o gyfraddau adeiladu ar draws y rhanbarth i helpu i lywio opsiynau twf h.y. beth mae modd ei gyflawni'n realistig fel cyfanswm ac mewn gwahanol rannau o'r rhanbarthol. Bydd y gwaith hwn yn cysylltu â'r Asesiadau Marchnad Dai Strategol a'r Asesiadau Marchnad Dai Lleol, ac yn llywio'r taflwybr tai dangosol.</p>	<p>Paratowyd gan swyddogion y CBC</p>
<p>Asesiad Marchnad Dai DoC (HMA)</p>	<p>Darparu cipolwg manwl ar fecaneg marchnadoedd eiddo preswyl ar draws y rhanbarth. Bydd yr Asesiad yn cynnwys asesiad meintiol o'r angen am dai a ddefnyddir i lywio polisïau tai y CDS o ran darpariaeth tai fforddiadwy, deiliadaeth a'r mathau o lety mae angen amdanynt ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Ymgynghorwyr allanol</p>



Asesiad Dynodiadau Tirlun Arbennig DoC (SLDA)	Cynnal adolygiad o ddynodiad yr Ardaloedd Tirlun Arbennig o fewn y rhanbarth er mwyn nodi ardaloedd y bernir sy'n haeddu cael eu cadw fel dynodiadau Ardal Tirlun Arbennig yn y CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Cymeriad Tirlun DoC (LCH)	Bydd y ddogfen hon yn darparu sylfaen gadarn o dystiolaeth ar gyfer ystyried cymeriad a sensitifwydd gwahanol dirluniau'r rhanbarth wrth ystyried datblygiadau newydd. Bydd hefyd yn hybu dealltwriaeth o sut mae tirluniau'r rhanbarth yn newid (o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau naturiol, economaidd a dynol), a sut mae modd eu cryfhau mewn Ymateb.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr DoC (GTAA)	Asesu anghenion llety Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn Teithiol i'r dyfodol a phenderfynu a oes angen darparu safleoedd ychwanegol yn y rhanbarth. Bydd hyn yn llywio unrhyw ddyraniadau safle cysylltiedig a pholisïau seiliedig ar feini prawf yn y CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad o Safleoedd Pontio Llety Sipsiwn a Theithwyr DoC	Asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn Teithiol o ran safleoedd pontio i'r dyfodol.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Canlyniadau Strategol Llifogydd DoC (SFCA)	Bydd yr asesiad a ddiweddarwyd yn creu fframwaith strategol ar gyfer ystyried risg llifogydd wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Fe'i datblygwyd yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd (TAN15), yn ogystal â chanllawiau ychwanegol a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Diweddarwyd yr Astudiaeth yng ngoleuni drafft newydd TAN 15 a'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Dichonoldeb Cynllun Cyfan DoC (PWVA)	Deall sut gall gwahanol rannau o'r farchnad effeithio ar ddichonoldeb cyflwyno tai preifat a fforddiadwy, yn ogystal â seilwaith cysylltiedig, er mwyn llywio llunio polisi, mynegiant gofodol a chymhwysiad.	Ymgynghorwyr allanol
Cyfyngiadau Cyffredinol o ran yr Amgylchedd ac Asesiad o'r Cyfleoedd	Mapio a nodi cyfyngiadau cyffredinol/cyfleoedd o ran yr amgylchedd a sut gallai hynny ddylanwadu ar gyfer lleoliadau twf ar raddfa strategol.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Lletem Las a Bylchau Glas Strategol DoC (GWSSG)	Adolygu'r dynodiadau lletem las presennol a Bylchau Glas Strategol yn y rhanbarth sy'n allweddol ar gyfer cyflawni'r strategaeth ofodol.	Ymgynghorwyr allanol



Asesiad Trafnidiaeth Strategol DoC (STA)	Dadansoddi'r rhwydwaith ffyrdd strategol, asesu effaith ardaloedd chwilio strategol posibl a dyraniadau, ac ystyried y gofynion lliniaru.	Ymgynghorwyr allanol
Cynllun Cyflawni Seilwaith y CDS (IDP)	Nodi gofynion seilwaith y CDS dros gyfnod y cynllun.	Paratowyd gan swyddogion y CBC
Asesiad o'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrrpas	Bydd y gwaith hwn yn adolygu ac yn defnyddio'r asesiadau a baratowyd gan ACLIau y rhanbarthau wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol Amnewid eu hunain.	Paratowyd gan swyddogion y CBC
Astudiaeth Capasiti Trefol Safleoedd Strategol	Darparu dadansoddiad o gapasiti trefol posibl aneddiadau'r rhanbarth i gwmpasu twf tai strategol.	Paratowyd gan swyddogion y CBC
Asesiad ynni adnewyddadwy lefel uchel / modelu effaith cynigion ar daflwybrau lleihau Nwyon Tŷ Gwydr	Sefydlu fframwaith a fydd yn golygu bod modd modelu effaith cynigion ar daflwybrau lleihau Nwyon Tŷ Gwydr.	Ymgynghorwyr allanol
Sylfaen o dystiolaeth ar gyfer Mwynau	Galluogi'r CDS i gyflwyno cyfran flynyddol a chyfanswm sy'n cwmpasu holl gyfnod y cynllun ar gyfer tywod, gro mân a cherrig caled ar draws y rhanbarth ac ym mhob ACLI. Nodi ardaloedd diogelu mwynau, gan gynnwys porthladdoedd/glanfeydd allweddol ar gyfer glanio mwynau Nodi cronfa dir briodol ar gyfer mwynau, i gyfateb i'r polisi cenedlaethol, gan gynnwys dyraniadau/ardaloedd chwilio a ffafrir, lle bo hynny'n briodol	Datganiadau Technegol Rhanbarthol (paratowyd gan Lywodraeth Cymru a Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru) Paratowyd gan swyddogion y CBC Paratowyd gan swyddogion y CBC
Asesiad Capasiti Gwastraff	Deall y rhwydwaith strategol o gyfleusterau rheoli gwastraff a pherfformiad y rhanbarth o ran bodloni gofynion y strategaeth wastraff genedlaethol a phrosesu gwastraff yn gynaliadwy.	Paratowyd gan swyddogion y CBC
Asesiad Effaith o ran Nitradau, Maetholion Eraill, ac Ansawdd Dŵr	Asesu effeithiau tebygol y broblem nitradau a maetholion eraill ar strategaeth ofodol y CDS a phenderfyniadau ynghylch lleoliadau twf.	Ymgynghorwyr allanol

Atodiad 3: Crynodeb o ymwneud rhanddeiliaid â'r CDS

Isod ceir crynodeb o'r dulliau ymgysylltu arfaethedig ar gyfer cyfnodau allweddol y broses o baratoi'r CDS.

Cyfnod 1: Cytundeb Cyflawni (Amserlen a Chynllun Cynnwys y Gymuned)

Cyfnod yn y broses o baratoi'r CDS	Diben	Amserlen	Pwy fydd yn rhan o hyn	Dulliau cynnwys	Adrodd, Lledaenu a Hysbysu
Ceisio awdurdod y CBC i baratoi'r CC.	Ceisio cymeradwyaeth y CBC i baratoi'r CC.	Medi 2025	<ul style="list-style-type: none"> Aelodau'r CBC 	<ul style="list-style-type: none"> CBC 	<ul style="list-style-type: none"> Adrodd Gwleidyddol Ffurfiol: adroddiad ffurfiol i'r CBC i geisio cymeradwyaeth i baratoi'r CC drafft.
Paratoi CC drafft ac ymgynghori'n anffurfiol â chyrff ymgynghori penodol / eu cynnwys ynghylch y cwmpas a'r cynnwys. (Rheoliadau 7,9 a 10)	<p>Mae'r CC yn ddatganiad cyhoeddus sy'n cynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCC), gan nodi sut a phryd gall rhanddeiliaid a'r gymuned ddod yn rhan o'r broses o greu'r cynllun ac Amserlen ar gyfer paratoi'r CDS.</p> <p>Ceisio barn cyrff ymgynghori penodol yn anffurfiol ar gynnwys y CC drafft.</p>	Tachwedd-Rhagfyr 2025	<ul style="list-style-type: none"> Aelodau'r CBC Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
Diwygio'r CC (os bernir bod angen hynny)	Diweddarau'r CC drafft i adlewyrchu barn Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol a rhanddeiliaid eraill (lle bo hynny'n berthnasol).	Tachwedd - Rhagfyr 2025	<ul style="list-style-type: none"> Aelodau'r CBC Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol Rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd 	<ul style="list-style-type: none"> Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb. 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).

Ceisio awdurdod y CBC i gyhoeddi'r CC.	Ceisio cymeradwyaeth y CBC i gyhoeddi'r CC drafft.	Ionawr 2026	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r CBC 	<ul style="list-style-type: none"> • CBC 	<ul style="list-style-type: none"> • Adrodd Gwleidyddol Ffurfiol: adroddiad ffurfiol i'r CBC i geisio cymeradwyaeth i gyhoeddi'r CC drafft.
Ymgynghori ar y CC drafft a Chynllun Cynnwys y Gymuned (4 wythnos) Rheoliad 11(2).	Ceisio barn cyrff ymgynghori ar gynnwys y CC drafft.	Ionawr 2026	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r CBC • Cyrff Ymgynghori Penodol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). • Deialog â ffocws gyda Chyrrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol • Cyhoeddi'r CC drafft ar wefan y CBC. 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
Mabwysiadu'r CC trwy benderfyniad gan y CBC yn unol â Rheoliad 11(2) o'r CDS	Mabwysiadu'r CC trwy benderfyniad gan y CBC yn unol â Rheoliad 11(2) o'r CDS.	Mawrth 2026	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r CBC 	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad ffurfiol i'r CBC.. 	<ul style="list-style-type: none"> • Adrodd Gwleidyddol Ffurfiol: adroddiad ffurfiol i'r CBC yn ceisio mabwysiadu'r CC.
Cyflwyno'r CC terfynol i Lywodraeth Cymru gytuno amo.	Ceisio cytundeb ffurfiol Llywodraeth Cymru bod y CC yn gadarn, yn realistig, ac yn cwmpasu'r prif ofynion o ran paratoi'r prif gynllun.	Mawrth 2026	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r CBC • Llywodraeth Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu diweddariad i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
Cyhoeddi'r CC cymeradwy gan ddarparu copïau i'w harchwilio ym Mhrif Swyddfa/Swyddfeydd y CBC ac ar ei wefan, yn unol â Rheoliad 12 o'r CDS.	Cydymffurfio â rheoliad 12 a hysbysu rhanddeiliaid ynghylch amserlen y CC a fabwysiadwyd a Chynllun Cynnwys y Gymuned.	Cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi i Lywodraeth Cymru gytuno.	<ul style="list-style-type: none"> • CBC 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu copïau i'w harchwilio ym Mhrif Swyddfa/Swyddfeydd y CBC ac ar ei wefan, yn unol â Rheoliad 12 o'r CDS. • Bydd copïau yn cael eu darparu hefyd ym mhrif swyddfeydd Llywodraeth Leol, fel y diffinnir yn atodiad 4. • Hysbysir rhanddeiliaid sydd â diddordeb trwy e-bost neu lythyr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu diweddariad i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).

Cyfnod 2: Paratoi ac Ymwneud Cyn Adnau

Cyfnod yn y broses o baratoi'r CDS	Diben	Amserlen	Pwy fydd yn rhan o hyn	Dulliau cynnwys	Adrodd, Lledaenu a Hysbysu
Adolygu sylfaen y CDLI/CDLIA presennol o dystiolaeth	Ystyried cynnwys a sylfaen o dystiolaeth CDLlau a fabwysiadwyd/sy'n dod i'r amlwg yn y rhanbarth. Bydd angen i'r CBC gymryd CDLlau cyfredol i ystyriaeth, ac yna ystyried, ochr yn ochr â hynny, y cyfeiriad hirdymor ar gyfer y CDS hyd ddiwedd cyfnod y cynllun (20-25 mlynedd).	Ebrill 2026 - 2027	<ul style="list-style-type: none"> CBC ACLlau Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol Ymgynghorwyr (lle bo angen) 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol. 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
Paratoi'r sylfaen o dystiolaeth (proses barhaus)	Paratoi sylfaen gadarn a chymesur o dystiolaeth i gefnogi paratoi'r CDS.	Ebrill 2026 (proses barhaus)	<ul style="list-style-type: none"> CBC Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol Ymgynghorwyr (lle bo angen) Rhanddeiliaid eraill allweddol 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol. 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
Paratoi Adroddiad Rhychwantu'r ACI: sefydlu'r gwaelodlin a phennu fframwaith yr ACI, ei gwmpas a'i amcanion.	Gosod y cyd-destun, sefydlu'r gwaelodlin a phenderfynu ar gwmpas ac amcanion yr ACI. Mae hynny'n cynnwys adolygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol.	April 2026	<ul style="list-style-type: none"> CBC ACLlau Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol Ymgynghorwyr (lle bo angen) 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol. 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
Ymgynghoriad wedi'i dargedu ar Adroddiad Rhychwantu drafft yr ACI (ymgynghoriad 5 wythnos)	Casglu barn ar y sylfaen o dystiolaeth, materion cynaliadwyedd a nodwyd ac amcanion yr AC er mwyn sicrhau bod effeithiau	Mai - Mehefin 2026	<ul style="list-style-type: none"> CBC Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC) 	<ul style="list-style-type: none"> Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).



	<p>arwyddocaol tebygol y cynllun yn cael eu nodi.</p>		<p>Phenodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghorwyr (lle bo angen) • Rhanddeiliaid eraill allweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol. 	
--	---	--	---	---	--



<p>Galwad am Leoliadau Strategol Ymgeisiol ac Ymgynghori ar Safleoedd (8 wythnos)</p>	<p>Mae'r cyfnod hwn yn galluogi pob parti i gyflwyno safleoedd posibl a lleoliadau strategol ehangach (ardaloedd chwilio) i'w cynnwys yn y cynllun. Bydd yn cynorthwyo'r CBC i nodi safleoedd datblygu posibl a llywio Strategaeth Ofodol y CDS, mewn ymgynghoriad â'r Cyrff Ymgynghori Penodol.</p>	<p>Rhwng Mehefin ac Gorfennaf 2026</p>	<ul style="list-style-type: none"> • CBC • Cyrff Ymgynghori Penodol • Rhanddeiliaid eraill allweddol • Y diwydiant Datblygu • Tirfeddianwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Hysbysu trwy e-bost • Y wefan 	<p>Amherthnasol</p>
<p>Paratoi a Chyhoeddi Lleoliadau Strategol Ymgeisiol a Chofrestr Safleoedd</p>		<p>Awst – Hydref 2026</p>	<ul style="list-style-type: none"> • CBC 	<ul style="list-style-type: none"> • Hysbysu trwy e-bost • Darparu diweddariadau ar y wefan 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
<p>Nodi materion allweddol, sbardunau newid a gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth.</p>	<p>Nodi'r prif faterion a'r sbardunau newid a fydd yn golygu bod modd datblygu gweledigaeth gynhwysfawr a rennir ar gyfer y rhanbarth, gan edrych ymlaen i'r tymor hwy a dod i gasgliad ynghylch sut dylai'r rhanbarth ymateb i'r materion mae'n ceisio ymdrin â nhw,</p>	<p>Ebrill – Medi 2026</p>	<ul style="list-style-type: none"> • CBC • Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghorwyr (Ile bo angen) • Rhanddeiliaid eraill allweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). • Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).
<p>Nodi ac asesu'r opsiynau (lefelau twf a dosbarthiad gofodol) gyda mewnbyn AC/AAS</p>	<p>Nodi a phrofi opsiynau o ran twf a'r strategaeth ofodol.</p>	<p>Ebrill – Medi 2026</p>	<ul style="list-style-type: none"> • CBC • Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghorwyr (Ile bo angen) • Rhanddeiliaid eraill allweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). • Deialog â ffocws gyda Chyrff Ymgynghori Cyffredinol a Phenodol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu diweddariadau i weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC).

Cynnal proses hidlo gychwynnol ar y Lleoliadau Strategol a'r Safleoedd	Pennu pa safleoedd sy'n cyd-fynd â'r strategaeth ofodol.	Medi – Tachwedd 2026	<ul style="list-style-type: none"> CBC 	<ul style="list-style-type: none"> Amherthnasol 	Amherthnasol
Cynnal asesiad manwl o'r Lleoliadau Strategol a'r Safleoedd	Pennu pa safleoedd sy'n cyd-fynd â'r strategaeth ofodol.	Rhagfyr 2026 – Rhagfyr 2028	<ul style="list-style-type: none"> CBC 	<ul style="list-style-type: none"> Amherthnasol 	Amherthnasol

Cyfnod 3: Paratoi'r Strategaeth a Ffafir ac Ymgynghori â'r Cyhoedd

